
# Y Cwricwlwm newydd i Gymru

Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru

Mai 2022



Paratowyd yr adroddiad hwn i'w gyflwyno i'r Senedd o dan Ddeddfau Llywodraeth Cymru 1998 a 2006 a Deddf Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol 2015.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn annibynnol o'r Senedd ac o lywodraeth. Mae'n archwilio ac yn ardystio cyfrifon Llywodraeth Cymru a'r cyrff cyhoeddus sy'n gysylltiedig â hi ac a noddir ganddi, gan gynnwys cyrff y GIG. Mae ganddo'r pŵer i gyflwyno adroddiadau i'r Senedd ar ddarbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y defnydd a wna'r sefydliadau hynny o'u hadnoddau wrth gyflawni eu swyddogaethau, a sut y gallent wella'r defnydd hwnnw.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol hefyd yn archwilio cyrff llywodraeth leol yng Nghymru, mae'n cynnal astudiaethau gwerth am arian mewn llywodraeth leol ac yn arolygu cydymffurfiaeth gydag anghenion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn ymgymryd â'i waith gan ddefnyddio staff ac adnoddau eraill a ddarperir gan Swyddfa Archwilio Cymru, sydd yn fwrdd statudol wedi'i sefydlu ar gyfer y nod hwnnw ac i fonitro a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol.

© Archwilydd Cyffredinol Cymru 2022

Archwilio Cymru yw brand ymbarél Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n endidau cyfreithiol ar wahân gyda'u swyddogaethau cyfreithiol eu hunain. Nid yw Archwilio Cymru ei hun yn endid cyfreithiol. Er bod gan yr Archwilydd Cyffredinol y swyddogaethau archwilio ac adrodd a ddisgrifir uchod, prif swyddogaethau Swyddfa Archwilio Cymru yw darparu staff ac adnoddau eraill ar gyfer arfer swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol, ac i fonitro a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol.

Cewch ailddefnyddio'r cyhoeddiad hwn (heb gynnwys y logos) yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng. Os byddwch yn ei ailddefnyddio, rhaid i chi ei ailddefnyddio'n gywir ac nid mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint Archwilydd Cyffredinol Cymru a rhaid rhoi teitl y cyhoeddiad hwn. Lle nodwyd deunydd hawlfraint unrhyw drydydd parti bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw cyn ei ailddefnyddio.

Am fwy o wybodaeth, neu os ydych angen unrhyw un o'n cyhoeddiadau mewn ffurf ac/neu iaith wahanol, cysylltwch â ni drwy ffonio 029 2032 0500 neu drwy e-bostio post@archwilio.cymru. Rydym yn croesawu galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Gallwch ysgrifennu atom hefyd, yn Gymraeg neu'n Saesneg, a byddwn yn ymateb yn yr iaith rydych chi wedi ei defnyddio. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

This document is also available in English.

# Cynnwys

Negeseuon allweddol 4

Ffeithiau allweddol 8

Argymhellion 9

## Prif adroddiad

1 Cynllunio cychwynnol: Mae'r cwricwlwm yn ganolog i raglen hirdymor Llywodraeth Cymru i ddiwygio addysg ond fe'i datblygwyd yn wreiddiol heb asesu ei gostau uniongyrchol na'i gostau cyfle 12

2 Paratoi i roi'r cwricwlwm ar waith: Bu Llywodraeth Cymru'n gweithio'n dda gyda'r proffesiwn addysg i gyd-ddylunio'r cwricwlwm er bod y pandemig wedi effeithio ar yr amserlen ac ar allu ysgolion i baratoi 26

3 Risgiau yn y dyfodol: Mae Llywodraeth Cymru'n effro i rai risgiau allweddol a bydd angen iddi barhau i reoli'r rhain i sicrhau bod y cwricwlwm newydd yn gwireddu ei fanteision disgwyliedig 40

## Atodiadau

1 Ymagwedd a dulliau archwilio 52

2 Llinell amser o ddigwyddiadau allweddol sy'n ymwneud â diwygio'r cwricwlwm, 2008-2027 54

# Negeseuon allweddol

## Cyd-destun

1 Mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn cynnal rhaglen fawr i ddiwygio addysg dros y degawd diwethaf fwy neu lai. Mae'r rhaglen ddiwygio'n cael lle amlwg yn y Rhaglen Lywodraethu gyfredol. Un o amcanion llesiant Llywodraeth Cymru yw 'Parhau â'n rhaglen hirdymor o ddiwygio addysg, a sicrhau bod anghydraddoldebau addysgol yn lleihau a bod safonau'n codi[1].

2 Mae'r newidiadau hyn wedi arwain at Gwricwlwm newydd i Gymru (y cwricwlwm) a fydd yn cael ei gyflwyno fesul cam o fis Medi 2022. Bydd y cwricwlwm yn wyriad sylweddol oddi wrth yr un blaenorol gan ganiatáu hyblygrwydd i bob ysgol ddatblygu ei chwricwlwm ei hun yn ôl anghenion lleol, er y bydd hynny'n gorfod digwydd o fewn terfynau penodol. Mae'r cwricwlwm newydd ar gyfer dysgwyr 3-16 oed. Mae'n disodli'r Cyfnod Sylfaen (dysgwyr 3-7 oed) a'r Cwricwlwm i Gymru ar gyfer cyfnodau 2-4 a gyflwynwyd yn 2008. Yn wahanol i'r cwricwlwm blaenorol, mae'n ymestyn i ysgolion arbennig ac unedau cyfeirio disgyblion. Yn yr adroddiad hwn rydym yn cynnwys y lleoliadau eraill hyn yn gyffredinol o fewn ein defnydd o'r term 'ysgolion'.

3 Mae'r adroddiad hwn yn bwrw golwg ar y modd y mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn rheoli'r broses o gynllunio'r cwricwlwm newydd a'i roi ar waith. Mae'r cwricwlwm newydd wedi bod yn cael ei ddatblygu ers 2015 ac mae cynlluniau gweithredu a'r amserlen wedi newid ers hynny. Ein nod oedd darparu sicrwydd bod y broses o'i roi ar waith ar y trywydd cywir yng nghyd-destun y cynlluniau diwygiedig a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2021. Yn dilyn newidiadau cynharach i'r amserlen yn 2017, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ym mis Gorffennaf 2021 y bydd y broses o roi'r cwricwlwm ar waith yn dechrau ym mhob blwyddyn mewn ysgolion cynradd o fis Medi 2022. Fodd bynnag, yn awr bydd yn ddewisol ar gyfer blwyddyn 7 mewn ysgolion uwchradd, ysgolion arbennig ac unedau cyfeirio disgyblion cyn dod yn orfodol i flynyddoedd 7 ac 8 a lleoliadau eraill o fis Medi 2023.

4 Mae **Atodiad 1** yn nodi ein hymagwedd a dulliau archwilio. Mae **Atodiad 2** yn dangos llinell amser o ddigwyddiadau allweddol sy'n ymwneud â diwygio'r cwricwlwm.

1 Llywodraeth Cymru, Rhaglen Lywodraethu – Diweddariad, Rhagfyr 2021

## Casgliad ar y cyfan

5 Bu Llywodraeth Cymru'n gweithio'n dda gyda'r proffesiwn addysg i gyd-ddylunio'r cwricwlwm newydd. Er y bu gan Lywodraeth Cymru raglen heriol o ddeddfwriaeth a gwaith arall yn y cyfnod cyn mis Medi 2022, mae llawer o hon wedi cael ei chwblhau. Fodd bynnag, mae'r pandemig wedi effeithio ar yr amserlen ac ar allu ysgolion i baratoi.

6 Ni wnaeth Llywodraeth Cymru asesu'r costau tebygol pan ddechreuodd y daith i ddiwygio'r cwricwlwm. Roedd amcangyfrifon a ddarparwyd i ategu gwaith craffu deddfwriaethol mwy diweddar yn gyfyngedig, gan atal asesiad llawn o werth am arian. Rydym yn cydnabod ei bod yn anodd meintioli cost diwygio'r cwricwlwm yn gywir. Fodd bynnag, mae cyllidebau cyfredol yn awgrymu y gallai gwariant uniongyrchol fod ar ben uchaf, neu'n uwch nag, amcangyfrifon Llywodraeth Cymru yn 2021. Bydd costau cyfle sylweddol i ysgolion tan o leiaf fis Mawrth 2026.

7 Mae Llywodraeth Cymru'n effro i rai risgiau allweddol a bydd angen iddi barhau i reoli'r rhain i sicrhau bod y cwricwlwm newydd yn gwireddu ei fanteision disgwyliedig.

## Canfyddiadau allweddol

8 Ni wnaeth Llywodraeth Cymru asesu'r costau uniongyrchol na'r costau cyfle pan ddechreuodd ddatblygu'r cwricwlwm newydd. Amcangyfrifodd ei chostau suddedig, a rhai ysgolion ac eraill sy'n rhan o ddatblygu'r cwricwlwm, yn ddiweddarach yn yr asesiad effaith rheoleiddiol a gyhoeddwyd ochr yn ochr â'r Bil Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) ym mis Gorffennaf 2020 ac a ddiweddarwyd yn nes ymlaen. Ei hamcangyfrif gorau oedd y byddai datblygu'r cwricwlwm newydd wedi costio £159 miliwn rhwng 2015-2016 a 2020-21, er ei bod wedi cydnabod nad yw'r cyfanswm yn cynnwys rhai costau.

9 Fe amcangyfrifodd Llywodraeth Cymru gostau uniongyrchol yn y dyfodol o £198.5 miliwn (yn amrywio o £184 i £213 miliwn) rhwng 2021-22 a 2030-31. Mae ysgolion yn wynebu costau cyfle sylweddol hefyd, yr amcangyfrifir eu bod oddeutu naw gwaith yn uwch na'u costau uniongyrchol. Mae papurau diweddar ar y gyllideb gan Lywodraeth Cymru'n awgrymu bod gwariant sy'n gysylltiedig â diwygio'r cwricwlwm yn debygol o fod ym mhen uchaf, neu'n fwy nag, amcangyfrifon Llywodraeth Cymru ym mis Ebrill 2021.

10 Bu Llywodraeth Cymru a chonsortia addysg rhanbarthol yn cydweithio'n dda gydag ysgolion i gyd-ddylunio'r cwricwlwm newydd ac adnabod y sgiliau a'r wybodaeth a oedd yn ofynnol i'w wireddu. Mae Llywodraeth Cymru wedi ariannu rhaglen o ddysgu a chymorth proffesiynol i ysgolion hefyd i'w helpu i ddatblygu'r cwricwlwm newydd a'i roi ar waith er bod ei heffeithiolrwydd yn aneglur.

11 Mae pandemig COVID-19 wedi effeithio ar allu ysgolion i gynllunio ar gyfer y cwricwlwm newydd. Fe ysgogodd hyn Lywodraeth Cymru i gynnig hyblygrwydd i ddarparwyr uwchradd ohirio dechrau addysgu'r cwricwlwm newydd tan fis Medi 2023. Mae bron i hanner yr ysgolion uwchradd, canol ac arbennig yn bwriadu cyflwyno'r cwricwlwm newydd ym mis Medi 2022.

12 Er bod y pandemig wedi tarfu, mae wedi arwain at rai newidiadau a fu o fudd i'r cwricwlwm sy'n datblygu. Er enghraifft, fe wnaeth atal y cwricwlwm yn 2020 ganiatáu i ysgolion fod yn fwy arbrofol, fe olygodd fod ysgolion wedi bod yn rhoi blaenoriaeth i iechyd a lles disgyblion, ac mae sgiliau digidol athrawon a disgyblion wedi gwella hefyd.

13 Unwaith yr oedd y ddeddfwriaeth sylfaenol yn ei lle ym mis Ebrill 2021, roedd gan Lywodraeth Cymru rôl arwyddocaol o ran cynorthwyo ysgolion ac eraill i baratoi. Roedd hyn yn cynnwys cwblhau canllawiau i ysgolion, sicrhau bod y fframwaith is-ddeddfwriaeth yn ei le a bod cymorth ar gael i ysgolion. Mae cryn dipyn o'r gwaith hwn wedi ei gwblhau bellach.

14 Er bod hynny ddau dymor yn hwyrach nag a fwriadwyd, fe wnaeth rhwydwaith cenedlaethol Llywodraeth Cymru ar gyfer cyflwyno'r cwricwlwm ddechrau ar ei waith yn hydref 2021. Ym mis Chwefror 2022, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru gymorth hirdymor i ysgolion gyda chynnydd ac asesu yn ogystal â chymorth i ddatblygu adnoddau dwyieithog a hawl genedlaethol i ddysgu proffesiynol ar gyfer yr holl staff mewn ysgolion o fis Medi 2022. Ym mis Hydref 2021, cyhoeddodd Cymwysterau Cymru fanylion lefel-uchel cymwysterau TGAU a fydd yn gyson â'r cwricwlwm newydd. Mae gwaith ar y gweill i gyd-ddylunio cymwysterau manwl.

15 Gan edrych y tu hwnt i fis Medi 2022, mae'r risgiau allweddol y bydd angen i Lywodraeth Cymru barhau i'w rheoli'n cynnwys:

- pwysau ariannol ac o ran y gweithlu a allai effeithio ar allu ysgolion i wireddu cwricwlwm newydd o safon uchel;
- sicrhau bod y cwricwlwm newydd yn cefnogi nod Llywodraeth Cymru i leihau anghydraddoldebau addysgol;
- sicrhau bod cymwysterau newydd yn gyson â'r cwricwlwm newydd ac yn ategu dilyniant i'r ystod lawn o opsiynau ôl-16;
- sicrhau mwy o ymgysylltu â rhieni, gofalwyr a dysgwyr; ac
- egluro pa wybodaeth fydd ar gael i gefnogi'r dull newydd lle mae hunanwerthuso, gwella, atebolrwydd a thryloywder yn y cwestiwn.

> Mae'r Cwricwlwm newydd i Gymru'n newid sylweddol i ddysgwyr, rhieni, gofalwyr a'r proffesiwn addysg ac, er y gellir deall bod y pandemig wedi effeithio ar yr amserlen a pharatoadau ysgolion, bydd mis Medi 2022 yn garreg filltir bwysig. Mae'r ysbryd y datblygwyd y cwricwlwm ynddo'n dda i'w weld, ond mae angen i waith yn y dyfodol i ddatblygu polisi ar y raddfa hon roi mwy o sylw i gostau tebygol rhoi hynny ar waith i ddarparu ar gyfer asesiad cynharach a llawnach o werth am arian.
>
> Mae angen peth gwaith sylweddol o hyd mewn meysydd allweddol i gyflawni manteision llawn diwygio'r cwricwlwm a bydd angen i Lywodraeth Cymru gadw golwg ar gostau parhaus sylweddol y rhaglen ddiwygio i ategu gwaith craffu ehangach.

**Adrian Crompton**
Archwilydd Cyffredinol Cymru



# Ffeithiau allweddol




## Lleoliadau

| | |
|---|---|
| **550** | o leoliadau'r blynyddoedd cynnar nas cynhelir a ariennir |
| **1,219** | o ysgolion cynradd |
| **182** | o ysgolion uwchradd |
| **23** | o ysgolion pob oed (3-16 neu 3-19) |
| **35** | o ysgolion arbennig |
| **10** | o unedau cyfeirio disgyblion |





## Costau

| | |
|---|---|
| **£159 miliwn** | costau uniongyrchol a amcangyfrifir 2015 i 2020-21 |
| **£198.5 miliwn** | costau uniongyrchol a amcangyfrifir 2021-22 i 2030-31 (yn amrywio o £184 miliwn - £213 miliwn) |
| **£263 miliwn** | costau cyfle a amcamgyfrifir i ysgolion, 2021-22 i 2025-26 (yn amrywio o £131 miliwn - £394 miliwn) |




## Staffio

| | |
|---|---|
| **23,941** | o athrawon cymwysedig (cyfwerth ag amser llawn) |
| **23,779** | o staff cymorth (cyfwerth ag amser llawn) |



## Cerrig milltir allweddol

| | |
|---|---|
| **Medi 2022** | addysgu’r cwricwlwm newydd am y tro cyntaf mewn ysgolion cynradd ac yn ddewisol ar gyfer blwyddyn 7 |
| **Medi 2023** | gorfodol ar gyfer blynyddoedd 7 ac 8 mewn ysgolion uwchradd a lleoliadau eraill |
| **2026/27** | dyfarnu’r cymwysterau cyntaf |

# Argymhellion

## Argymhellion

### Deall yn well beth yw cost diwygio'r cwricwlwm a chefnogi'r broses o graffu ar hynny

**A1** Nid yw wedi bod yn hawdd i Lywodraeth Cymru na ni adnabod gwariant ar ddiwygio'r cwricwlwm hyd yma. Yn rhannol, mae hyn wedi digwydd oherwydd anawsterau o ran cyfrifo gwariant sydd i'w briodoli'n benodol i ddiwygio'r cwricwlwm yn hytrach na gwariant ar elfennau eraill o'r rhaglen diwygio addysg, neu ar y rhaglen Adnewyddu a Diwygio, y gall peth ohono fod o fudd i ddiwygio'r cwricwlwm. Fodd bynnag, mae deall cost diwygio'r cwricwlwm yn hanfodol i gefnogi gwaith craffu a goleuo unrhyw ystyriaeth i werth am arian.

Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru'n monitro ac yn adrodd yn flynyddol ar gostau ei rhaglen i ddiwygio'r cwricwlwm gan gynnwys costau i bartneriaid ac ysgolion. Wrth ddatblygu ac adrodd ar ei hamcangyfrif gorau, bydd angen i Lywodraeth Cymru ystyried effaith unrhyw waith ychwanegol i gasglu data ar ysgolion yn arbennig.

### Gwerthuso effeithiolrwydd y rhaglen dysgu proffesiynol a chymorth i ysgolion

**A2** Mae Llywodraeth Cymru wedi ariannu dysgu proffesiynol sy'n cyd-fynd â'r cwricwlwm newydd ochr yn ochr â'i buddsoddiad ehangach yn nysgu proffesiynol athrawon. Mae hefyd wedi ariannu'r partneriaethau a chonsortia addysg rhanbarthol i roi cymorth pwrpasol i ysgolion. Yn ddiweddar cyhoeddodd hawl genedlaethol i ddysgu proffesiynol ar gyfer yr holl athrawon a chynorthwywyr addysgu.

## Argymhellion

**Dylunio a chyflwyno cymwysterau newydd sy’n ategu uchelgeisiau Llywodraeth Cymru ar gyfer y cwricwlwm newydd**

**A3** Mae Llywodraeth Cymru a Cymwysterau Cymru’n gwybod bod angen i gymwysterau newid i gyd-fynd â’r cwricwlwm newydd. Mae Cymwysterau Cymru’n gweithio gydag ysgolion, addysg bellach ac addysg uwch ac eraill i gyd-ddylunio’r TGAU newydd ac, wedi hynny, cymwysterau eraill. Nid yw manylion y cymwysterau a ffurf yr asesiadau wedi cael eu penderfynu eto.

Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru’n gweithio gyda Cymwysterau Cymru i:

a monitro cyfranogiad athrawon a dysgwyr yn y gwaith i ddatblygu’r cymwysterau newydd;

b cynllunio rhaglen dysgu proffesiynol genedlaethol effeithiol a fydd yn cynorthwyo athrawon i ddarparu’r cymwysterau newydd; ac

c asesu’r adnoddau y mae eu hangen ar gyfer dysgu proffesiynol mewn perthynas â’r cymwysterau newydd ac unrhyw newidiadau i’r broses asesu, gan gynnwys unrhyw rôl fwy i asesiadau athrawon a/neu dechnoleg ddigidol.

**Gwerthuso effeithiolrwydd ymgysylltiad ysgolion â rhieni, gofalwyr a dysgwyr**

**A4** Un o effeithiau cadarnhaol y pandemig fu cryfhau’r ymgysylltu rhwng ysgolion a theuluoedd mewn nifer o achosion. Bydd yn ofynnol i ysgolion ymgysylltu â rhieni a gofalwyr ynghylch y cwricwla. Dylai rhieni, gofalwyr a dysgwyr allu cyfranogi ym mhrosesau gwerthuso a gwella ysgolion. Mae hyn ar y gweill mewn rhai ysgolion.

Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru’n rhoi cymorth i ysgolion ymgysylltu’n effeithiol â rhieni, gofalwyr a dysgwyr ac yn gwerthuso pa mor dda y mae ysgolion yn gwneud hyn i gefnogi gwelliant.

## Argymhellion

### Cadarnhau pa wybodaeth y mae ei hangen ar gyfer dealltwriaeth gyflawn am weithgareddau a deilliannau ysgolion

**A5** Mae gwaith i ategu dull hunanwerthuso cenedlaethol i fod i gael ei gwblhau erbyn diwedd blwyddyn academaidd 2021/22. Ceir llai o eglurder ynglŷn â'r broses ar gyfer atebolrwydd democrataidd a thryloywder, gan gynnwys pa wybodaeth fydd ar gael i lywodraethwyr, awdurdodau lleol neu esgobaethol, rhieni, gofalwyr a'r cyhoedd.

Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru:

a yn cadarnhau pa wybodaeth y mae ar y rhai sy'n gyfrifol am ddwyn ysgolion i gyfrif ei hangen fel rhan o ddull newydd lle mae atebolrwydd yn y cwestiwn; ac

b yn nodi manylion sut y bydd yn sicrhau tryloywder ar gyfer rheini, dysgwyr a'r cyhoedd.

### Sicrhau bod y cwricwlwm newydd yn dal i fod yn addas ar gyfer y diben

**A6** Mae Deddf y Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021 yn cyflwyno gofyniad i Weinidogion adolygu'r cwricwlwm newydd yn gyson. Nid yw'n nodi'r mecanwaith ar gyfer adolygiad cylchol.

Rydym yn argymell, unwaith y mae'r garreg filltir o ran addysgu'r cwricwlwm newydd gyntaf wedi'i chyrraedd, bod Llywodraeth Cymru'n nodi sut y mae'n bwriadu adolygu'r cwricwlwm yn gyson i sicrhau y gall ymsefydlu ac eto dal i fod yn addas ar gyfer y diben.

# Cynllunio cychwynnol: Mae’r cwricwlwm yn ganolog i raglen hirdymor Llywodraeth Cymru i ddiwygio addysg ond fe’i datblygwyd yn wreiddiol heb asesu ei gostau uniongyrchol na’i gostau cyfle

01

1.1 Mae diwygio'r cwricwlwm yn ganolog o raglen hirdymor, ehangach o ddiwygio addysgol yng Nghymru (**Arddangosyn 1**). Mae'r rhan hon o'r adroddiad yn bwrw golwg ar gefndir y cwricwlwm newydd a'r hyn sy'n hysbys am ei gostau gwirioneddol ac amcangyfrifedig.

**Arddangosyn 1: y pedwar amcan galluogi ar gyfer diwygio addysg yng Nghymru**

**Datblygu proffesiwn addysg o safon uchel.**

**Arweinwyr sy'n ysbrydoli ac sy'n cydweithio i godi safonau.**

**Ysgolion cryf a chynhwysol sydd wedi ymrwymo i sicrhau rhagoriaeth, tegwch a lles.**

**Trefniadau asesu, gwerthuso ac atebolrwydd cadarn i ategu system hunanwella.**

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru, Addysg yng Nghymru: Cenhadaeth ein cenedl, Cynllun gweithredu 2017-21, Medi 2017

## Mae diwygio'r cwricwlwm yn ganolog i raglen ehangach i ddiwygio addysg y mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn ei chynnal dros y degawd diwethaf fwy neu lai

1.2 Ym mis Rhagfyr 2010, fe wnaeth canlyniadau PISA siomedig[2] ysgogi trafodaeth genedlaethol am addysg yng Nghymru. Roedd canlyniadau mewn mathemateg a darllen islaw'r cyfartaledd ar gyfer 65 o wledydd a gyfranogodd. Roedd sgoriau cymedrig mewn mathemateg, darllen a gwyddoniaeth yng Nghymru'n sylweddol is nag yng ngwledydd eraill y DU.

2 Mae'r Rhaglen Ryngwladol Asesu Myfyrwyr (PISA) yn astudiaeth o gyflawniad addysgol a drefnir gan y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (OECD). Mae PISA yn rhoi meincnod i lywodraethau ar gyfer polisi a pherfformiad ym maes addysg, i wneud penderfyniadau seiliedig-ar-dystiolaeth ac i ddysgu oddi wrth ei gilydd. Mae'n cefnogi tryloywder.

1.3 Dechreuodd y rhaglen i ddiwygio addysg ym mis Chwefror 2012 pan gyhoeddodd Llywodraeth Cymru newidiadau gan gynnwys fframweithiau llythrennedd a rhifedd cenedlaethol a phrofion cenedlaethol. Mae **Atodiad 2** yn darparu llinell amser o weithgareddau allweddol o ran datblygu'r cwricwlwm a'i roi ar waith.

1.4 Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru adolygiad o'r cwricwlwm ac asesu ym mis Hydref 2012. Ar y pryd, roedd dysgwyr yng Nghymru'n dilyn cwricwlwm cenedlaethol a sefydlwyd gyntaf gan Ddeddf Diwygio Addysg 1988. Fe wnaeth llywodraethau dilynol ei ddiwygio ac ychwanegu ato, yn anad dim yn 2008 pan gyflwynodd Llywodraeth Cymru'r Cyfnod Sylfaen (ar gyfer dysgwyr 3-7 oed) a'r Cwricwlwm i Gymru ar gyfer cyfnodau allweddol 2-4 (dysgwyr 7-16 oed)[3].

1.5 Ym mis Mawrth 2014, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru adolygiad cynhwysfawr o'r cwricwlwm a'r trefniadau asesu[4]. Roedd yn mynd i gael ei arwain gan yr Athro Graham Donaldson, a arferai fod yn Brif Ymgynghorydd Addysg i Lywodraeth yr Alban. Roedd ei adroddiad[5] a gyhoeddwyd ym mis Chwefror 2015 yn nodi dull o ran addysg ar gyfer dysgwyr 3-16 oed yng Nghymru. Derbyniodd Llywodraeth Cymru ei argymhellion. Mae **Arddangosyn 2** yn nodi prif elfennau'r Cwricwlwm newydd i Gymru.

3 Gorchymyn Addysg (Y Cwricwlwm Cenedlaethol) (Targedau Cyrhaeddiad a Rhaglenni Astudio) (Cymru) 2008

4 Llywodraeth Cymru, Datganiad Ysgrifenedig – Adolygiad o Asesu a'r Cwricwlwm, Mawrth 2014

5 Donaldson, G., Dyfodol Llwyddiannus: Adolygiad Annibynnol o'r Cwricwlwm a Threfniadau Asesu yng Nghymru, Chwefror 2015

## Arddangosyn 2: ynglŷn â'r Cwricwlwm newydd i Gymru

- Mae cwricwlwm yn golygu'r holl brofiadau dysgu a gweithgareddau asesu a gynllunnir i gyrraedd nodau addysg y cytunwyd arnynt.
- Mae'r Cwricwlwm newydd i Gymru'n gwricwlwm integredig ar gyfer dysgwyr 3-16 oed. Mae'n berthnasol i bob lleoliad (gan gynnwys ysgolion arbennig ac unedau cyfeirio disgyblion nad yw'n ofynnol iddynt ddilyn y cwricwlwm cyfredol).
- Deddf y Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021 a'i rheoliadau sy'n darparu'r sail gyfreithiol.
- Mae fframwaith cwricwlwm newydd wedi cael ei gyd-ddylunio, gydag athrawon ac ysgolion yn cyflawni rôl allweddol. Mae'n seiliedig ar bedwar diben, i ddatblygu:
  - dysgwyr galluog ac uchelgeisiol;
  - cyfranwyr mentrus a chreadigol;
  - dinasyddion egwyddorol a gwybodus; ac
  - unigolion iach a hyderus.
- Mae gan athrawon fwy o hyblygrwydd i ddatblygu cwricwlwm yn eu hysgol sy'n diwallu anghenion eu dysgwyr. Maent yn gwneud hyn gan ddefnyddio fframwaith cyffredin gyda chwe Maes Dysgu a Phrofiad (Meysydd): Mathemateg a Rhifedd; Gwyddoniaeth a Thechnoleg; Y Dyniaethau; Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu; Iechyd a Lles; a'r Celfyddydau Mynegiannol.
- Caiff y gofynion bras eu nodi mewn 27 datganiad o'r 'Hyd sy'n Bwysig' yn y Meysydd. Mae dyluniad y cwricwlwm yn dileu ffiniau traddodiadol rhwng pynciau i helpu dysgwyr i ystyried gwahanol gysyniadau a materion yn y ffordd ehangaf bosibl.
- Mae sgiliau llythrennedd, rhifedd a digidol yn croesi'r holl Feysydd.
- Mae'r Meysydd yn cefnogi cynllunio trawsgwricwlaidd, fel bod dysgwyr yn gallu cymhwyso'r hyn a ddysgwyd i wahanol sefyllfaoedd academaidd neu mewn bywyd go iawn.
- Mae Cymwysterau Cymru, y corff rheoleiddio annibynnol ar gyfer cymwysterau (heblaw graddau) yng Nghymru, yn datblygu cymwysterau i adlewyrchu'r Cwricwlwm i Gymru trwy ddull datblygu ar y cyd.

Ffynhonnell: Archwilio Cymru

1.6 Ym mis Hydref 2015, fe nododd Llywodraeth Cymru ei huchelgais y gallai'r cwricwlwm fod ar gael i ysgolion mor gynnar â mis Medi 2018 gyda phob ysgol yn ei addysgu erbyn mis Medi 2021[6]. Wrth edrych yn ôl, roedd yr uchelgais y byddai'r cwricwlwm newydd ar gael ar gyfer 2018 yn annhebygol; mae profiad o wledydd eraill yn awgrymu bod newidiadau i'r cwricwlwm yn cymryd amser hir[7].

1.7 Ym mis Medi 2017, fe gyhoeddodd Llywodraeth Cymru gynllun diwygiedig ar gyfer rhoi'r cwricwlwm ar waith, gan ohirio'r dyddiad ar gyfer dechrau addysgu'r cwricwlwm newydd tan fis Medi 2022 mewn ysgolion cynradd ac ym mlwyddyn 7. Ochr yn ochr â datblygu'r cwricwlwm, rhoddodd Llywodraeth Cymru linellau amser ar gyfer mesurau diwygio eraill a oedd yn hanfodol i roi'r cwricwlwm ar waith yn llwyddiannus, gan gynnwys safonau proffesiynol newydd ar gyfer addysgu yn 2017 a diwygio dysgu a chymwysterau'n barhaus.

## Ni wnaeth Llywodraeth Cymru asesu'r costau uniongyrchol na'r costau cyfle pan ddechreuodd ddatblygu'r cwricwlwm newydd

1.8 Nid ydym wedi gweld tystiolaeth bod unrhyw asesiad o gostau uniongyrchol na chostau cyfle a oedd yn gysylltiedig â diwygio'r cwricwlwm wedi cael ei gynnal cyn cyflwyno'r ddeddfwriaeth ddrafft. Roedd yn rhaid i Lywodraeth Cymru amcangyfrif y costau suddedig a ysgwyddwyd ganddi hi ei hun, rhai sefydliadau partner ac ysgolion, i oleuo'r asesiad effaith rheoleiddiol ar gyfer Bil y Cwricwlwm ac Asesu 2020 (y Bil) ym mis Gorffennaf 2020. Fe gasglodd yr wybodaeth hon yn ôl-weithredol ac ni wnaeth rhai partneriaid ddarparu gwybodaeth. Fe wnaeth Llywodraeth Cymru hefyd gynnwys amcangyfrifon yn yr asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau uniongyrchol a chostau cyfle yn y dyfodol ar gyfer y cwricwlwm newydd. Fe ddiwygiodd ei hamcangyfrifon o gostau suddedig a chostau yn y dyfodol sawl gwaith yn ystod gwaith craffu, gyda diweddariadau i'r asesiad effaith rheoleiddiol ym mis Medi 2020, ac yna ym mis Chwefror ac ym mis Ebrill 2021.

1.9 Rydym yn cydnabod ei bod yn anodd adnabod gwariant mewn modd dibynadwy. Yn rhannol, y rhesymau dros hyn yw am bod y cwricwlwm wedi bod yn cael ei ddatblygu ers 2015 a bod y gwariant wedi'i gydblethu â 'gwariant' arall pan baratowyd yr asesiad effaith rheoleiddiol. Roedd hyn yn arbennig o wir ar gyfer costau i ysgolion lle gwnaethant ysgwyddo costau ychwanegol a chostau cyfle na chawsant eu hariannu'n uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru.

6 Llywodraeth Cymru, Cymwys am oes: Cwricwlwm i Gymru – cwricwlwm am oes, Hydref 2015

7 Mills, B., How leading education nations develop and reform their curriculums, Y Sefydliad Polisi Addysg, Ionawr 2021[8] Ymchwil Arad ar y cyd ag ICF Consulting Limited, Gwerthusiad Ffurfiannol o'r Model Ysgolion Arloesi: Adroddiad Terfynol, Gorffennaf 2018

1.10 Fe wnaeth yr asesiad effaith rheoleiddiol gymharu cost diwygio’r cwricwlwm â chost cynnal y trefniadau cyfredol ond ni wnaeth ystyried unrhyw opsiynau eraill ar gyfer gwireddu dyheadau Llywodraeth Cymru heblaw am ddiwygio’r cwricwlwm presennol yn gyfan gwbl. Fe wnaeth y methiant hwn i ddogfennu opsiynau eraill beri i Bwyllgor Cyllid y Senedd ddatgan bod ‘Asesiadau Effaith Rheoleiddiol yn aml i’w gweld fel pe baent yn un o “sgîl-gynhyrchion” y broses benderfynu, yn hytrach na’u bod yn ei llywio”. Yn dilyn ceisiadau am wybodaeth ariannol well gan Bwyllgor Cyllid a Phwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg y Senedd, fe ddarparodd Llywodraeth Cymru amcangyfrifon diwygiedig ym mis Chwefror a mis Ebrill 2021. Fe gynyddodd ei hamcangyfrifon o gostau suddedig o £114 miliwn i £159 miliwn, o ganlyniad i gynnydd o 51% yn ei hamcangyfrif o’i gwariant hi ei hun (**Arddangosyn 3**).

**Arddangosyn 3: amcangyfrifon Llywodraeth Cymru o gostau suddedig uniongyrchol diwygio'r cwricwlwm, rhwng 2015-16 a 2020-21[1, 2, 3]**

| | Amcangyfrif yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol, Gorffennaf 2020 (£ miliynau) | Amcangyfrif diwygiedig yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol, Ebrill 2021 (£ miliynau) | % y newid rhwng yr amcangyfrifon |
|---|---|---|---|
| Llywodraeth Cymru | 89.1 | 134.1 | 51% |
| Cymwysterau Cymru | 1.7[4] | 1.4 | -18% |
| Estyn | 4.4 | 4.4 | 0 |
| Consortia addysg rhanbarthol | 15.5 | 15.5 | 0 |
| Yr Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol | 3.3 | 3.3 | 0 |
| **Cyfanswm** | **114.1** | **158.7** | **39%** |

Nodiadau:

1 Nid yw'n cynnwys costau i Wasanaeth Addysg yr Eglwys Gatholig, yr Eglwys yng Nghymru a Chymdeithas Cynghorau Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol Cymru a oedd yn gysylltiedig â'r ymgynghoriad ynghylch crefydd, moeseg a gwerthoedd.

2 Nid yw'n cynnwys costau mesurau diwygio addysg nad ydynt yn uniongyrchol gysylltiedig â'r cwricwlwm newydd ond a fydd wedi cyfrannu ato, gan gynnwys diwygio addysg gychwynnol i athrawon, sefydlu'r Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol, asesiadau dysgwyr a chymorth gyda'r blynyddoedd cynnar a'r cyfnod sylfaen.

3 Nid yw'n cynnwys costau sy'n gysylltiedig â newidiadau o ran y Gymraeg a briodolir i gyrraedd nodau Cymraeg 2050. Caiff costau i rieni o ganlyniad i ddiwrnodau HMS ychwanegol eu priodoli i Reoliadau Addysg (Y Diwrnod Ysgol a'r Flwyddyn Ysgol) (Cymru) (Diwygio) 2019.

4 Mae'r ffigwr wedi'i gofnodi'n anghywir fel £3,459,000 yn Nhabl 5 yn y Memorandwm Esboniadol. Rydym wedi addasu ffigwr y cyfanswm ac wedi tynnu £1.7 miliwn o gostau a ysgwyddwyd yn 2015-16 a 2016-17 sydd i'w priodoli i'r rhaglen flaenorol i ddiwygio TGAU.

Ffynonellau: Dadansoddiad Archwilio Cymru o'r dogfennau Llywodraeth Cymru, Bil y Cwricwlwm ac Asesu (Cymru), Memorandwm Esboniadol sy'n ymgorffori'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol a Nodiadau Esboniadol, Gorffennaf 2020 a Llywodraeth Cymru, Bil y Cwricwlwm ac Asesu (Cymru), Memorandwm Esboniadol sy'n ymgorffori'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol a Nodiadau Esboniadol (diwygiedig), Ebrill 2021

1.11 Mae amcangyfrifon Llywodraeth Cymru o gostau uniongyrchol yn y dyfodol i ysgolion yn ei hasesiad effaith rheoleiddiol yn cynnwys amrediadau eang. Maent hefyd yn hepgor costau i rai partneriaid a lleoliadau gan gynnwys ysgolion arbennig, unedau cyfeirio disgyblion a lleoliadau'r blynyddoedd cynnar, Eto, darparodd Llywodraeth Cymru ffigyrau diwygiedig ym mis Chwefror 2021 a mis Ebrill 2021.

1.12 Fe wnaeth gwerthusiad yn 2017 amlygu bod ysgolion arloesi (gweler **paragraff 2.2**) yn amrywio o ran sut yr oeddent, a pha un a oeddent, yn monitro'r amser a'r adnoddau a oedd yn cael eu defnyddio mewn gwaith sy'n gysylltiedig â'r cwricwlwm. Ni ofynnwyd i rai gasglu unrhyw wybodaeth am adnoddau a oedd yn cael eu defnyddio. Byddai gweithgarwch gwell i fonitro'r amser a'r adnoddau yr oedd eu hangen ar yr adeg honno gan ysgolion arloesi wedi goleuo'r broses genedlaethol i gyflwyno'r cwricwlwm[8]. Yn lle hynny, mae'r wybodaeth hon yn seiliedig ar amcangyfrifon gan nifer fach o ysgolion arloesi, a gasglwyd yn ôl-weithredol tuag at ddiwedd 2019. O ganlyniad, fe amcangyfrifodd Llywodraeth Cymru fod costau uniongyrchol diwygio'r cwricwlwm yn y dyfodol yn £198.5 miliwn rhwng 2021-22 a 2030-31, ond roedd yr amcangyfrif hwn yn amrywio rhwng £184 miliwn a £213 miliwn (**Arddangosyn 4**). Mae tri chwarter y gwariant hwn yn perthyn i'r cyfnod rhwng 2021-22 a 2025-26.

8 Ymchwil Arad (2017). Gwerthusiad Ffurfiannol o'r Model Ysgolion Arloesi: Papur ar Linyn 1 a gweithgarwch Llinyn 2 cynnar. Caerdydd: Llywodraeth Cymru, adroddiad GSR rhif 72/2017

### Arddangosyn 4: amcangyfrifon Llywodraeth Cymru o wariant uniongyrchol yn y dyfodol ar ddiwygio'r cwricwlwm, rhwng 2021-22 a 2030-31[1]

| | | Amcangyfrif yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol, Gorffennaf 2020 (£ miliynau) | Amcangyfrif diwygiedig yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol, Ebrill 2021 (£ miliynau) | % y newid rhwng yr amcangyfrifon |
|---|---|---|---|---|
| Llywodraeth Cymru | | 175.4 | 162.6 | -7.3% |
| Cymwysterau Cymru[2] | | 6.5 | 6.8 | 4.6% |
| Ysgolion | Isel | 14.5 | 14.5 | 0.0% |
| | Canolig | 29.1 | 29.1 | 0.0% |
| | Uchel | 43.6 | 43.6 | 0.0% |
| **Cyfanswm** | **Isel** | **196.4** | **184.0** | **-6.3%** |
| | **Canolig** | **211.0** | **198.5** | **-5.9%** |
| | **Uchel** | **225.5** | **213.0** | **-5.5%** |

Nodiadau:

1 Nid yw'n cynnwys costau sy'n dod i ran awdurdodau lleol, awdurdodau esgobaethol, rhai lleoliadau addysg a lleoliadau'r blynyddoedd cynnar nas cynhelir. Nid yw ychwaith yn cynnwys costau sy'n ymwneud â'r cwricwlwm ond nad ydynt yn uniongyrchol gysylltiedig, megis seilwaith digidol.

2 Mae'r amcangyfrif diwygiedig gan Cymwysterau Cymru'n cynrychioli llithriant o £300,000 rhwng 2020-21 a 2021-22. Mae **Arddangosyn 3** yn dangos gostyngiad cyfatebol.

Ffynonellau: Dadansoddiad Archwilio Cymru o'r dogfennau Llywodraeth Cymru, Bil y Cwricwlwm ac Asesu (Cymru), Memorandwm Esboniadol sy'n ymgorffori'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol a Nodiadau Esboniadol, Gorffennaf 2020 a Llywodraeth Cymru, Bil y Cwricwlwm ac Asesu (Cymru), Memorandwm Esboniadol sy'n ymgorffori'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol a

Nodiadau Esboniadol (diwygiedig), Ebrill 2021

## Mae'n edrych yn debygol y bydd costau uniongyrchol ym mhen uchaf, neu'n fwy nag, amcangyfrifon Llywodraeth Cymru ym mis Ebrill 2021 ac mae costau cyfle'n sylweddol

1.13 Yn ystod dadl mewn sesiwn lawn ym mis Mawrth 2021, fe gytunodd Llywodraeth Cymru i ddarparu gwybodaeth fwy cyflawn ac wedi'i diweddaru ar gyfer y Senedd am gostau yn y dyfodol. Cafodd hon ei chynnwys mewn papur briffio ar gyfer Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg y Senedd ym mis Ionawr 2022[9] ac mewn sylwebaeth ar gyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru 2022-23[10].

1.14 Fel a gydnabyddir ym mharagraff 1.9, mae'n anodd gwahanu gwariant ar ddiwygio'r cwricwlwm oddi wrth wariant arall, sy'n cyd-fynd yn agos yn rhaglen ehangach 'Cenhadaeth Ein Cenedl' a'r rhaglen Adnewyddu a Diwygio gyfredol. Er enghraifft, mae Llywodraeth Cymru'n cynnwys £15 miliwn o'i chyfanswm gwariant o £74 miliwn ar ddysgu proffesiynol athrawon mewn gwariant ar ddiwygio'r cwricwlwm ond bydd yr holl welliannau i ddysgu proffesiynol o fudd i'r cwricwlwm newydd o leiaf yn anuniongyrchol.

1.15 Rydym hefyd yn derbyn ei bod yn anodd gwahanu gwariant ar elfennau megis cynnydd ac asesu sy'n gysylltiedig â'r ymateb i'r pandemig oddi wrth y gwariant y mae ei angen ar gyfer y cwricwlwm newydd. Fodd bynnag, mae ymarfer syml i gymharu cyllidebau yn y dyfodol ag amcangyfrifon diwygiedig yn yr asesiad effaith rheoleiddiol yn awgrymu bod gwariant yn debygol o fod ym mhen uchaf yr amcangyfrifon, ac mewn rhai blynyddoedd uwchlaw'r amcangyfrifon (**Arddangosyn 5**). Mae hyn yn adleisio ein canfyddiad yn 2020 mewn meysydd eraill bod asesiadau effaith rheoleiddiol yn tueddu i danamcangyfrif cost deddfwriaeth[11].

9 Llywodraeth Cymru, Papur tystiolaeth ar Gyllideb Ddrafft 2022-23 – Prif Grŵp Gwariant Addysg a'r Gymraeg i Bwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg y Senedd, Ionawr 2022

10 Llywodraeth Cymru, Cyllideb Ddrafft 2022-23: Cyllideb i greu Cymru gryfach, decach a gwyrddach, Rhagfyr 2021

11 Archwilydd Cyffredinol Cymru, Deddfu gwell: yr her o roi deddfwriaeth ar waith, Medi 2020

**Arddangosyn 5: gwariant a gyllidebwyd gan Lywodraeth Cymru ar ddiwygio'r cwricwlwm, 2021-22 i 2024-25**

| | 2021-22 (£ miliynau) | 2022-23 (£ miliynau) | 2023-24 (£ miliynau) | 2024-25 (£ miliynau) |
|---|---|---|---|---|
| Amcangyfrif diwygiedig yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol, Ebrill 2021 | 23.8 - 36.6 | 23.6 - 33.8 | 20.1 - 23.3 | 19.1 - 20.7 |
| Gwariant a gyllidebwyd gan Lywodraeth Cymru | 34.9 | 35.0 | 34.5 | 30.9 |

Nodyn: Crynhowyd y ffigyrau hyn gan Lywodraeth Cymru. Mae'r ffigyrau'n cynnwys dysgu proffesiynol sy'n uniongyrchol gysylltiedig â'r cwricwlwm newydd, deunyddiau ac adnoddau newydd, costau i Cymwysterau Cymru, costau gweinyddol Llywodraeth Cymru a chostau uniongyrchol ysgolion gan gynnwys cyflenwi pan fo staff yn absennol.

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru, tystiolaeth ysgrifenedig Gweinidogion i bwyllgorau craffu'r Senedd ar ddyraniadau o fewn pob Prif Grŵp Gwariant, Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Rhagfyr 2021; Llywodraeth Cymru, Cyllideb Ddrafft 2022-23: Cyllideb i greu Cymru gryfach, decach a gwyrddach, Rhagfyr 2021 Atodiad G; Llywodraeth Cymru, Bil y Cwricwlwm ac Asesu (Cymru), Memorandwm Esboniadol sy'n ymgorffori'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol a Nodiadau Esboniadol (diwygiedig), Ebrill 2021


1.16 Yn 2022-23, mae cyllideb Llywodraeth Cymru'n cynnwys £35.05 miliwn ar gyfer diwygio'r cwricwlwm. Mae hyn yn uwch na'r gwariant amcangyfrifedig yn yr asesiad effaith rheoleiddiol ar gyfer 2022-23 (rhwng £23.6 miliwn a £33.8 miliwn). Mae gwariant a gyllidebwyd yn 2023-24 a 2024-25 hefyd yn uwch na'r amcangyfrifon yn yr asesiad effaith rheoleiddiol.

1.17 Mae cyllideb 2022-23 yn cynnwys £5.3 miliwn ar gyfer cynnydd a lles disgyblion, gan barhau â gwaith yn 2021-22 a ariannwyd trwy ei dyraniad Adnewyddu a Diwygio. Nid oedd yr amcangyfrif yn yr asesiad effaith rheoleiddiol yn cynnwys cyllid ychwanegol ar gyfer trefniadau cynnydd ac asesu newydd o'i gymharu â'r trefniadau presennol. Fodd bynnag, mae ysgolion wedi mynegi angen am ragor o gymorth gyda chynnydd ac asesu a dywedodd Llywodraeth Cymru wrthym y bu gofynion ychwanegol i asesu cynnydd disgyblion oherwydd y pandemig. Nid yw'r cyfanswm yn cynnwys cost unrhyw feddalwedd y gallai ysgolion ddewis ei brynu i ategu eu gweithdrefnau asesu newydd a/neu i ddisodli meddalwedd presennol sy'n cyd-fynd â'r cwricwlwm cyfredol, a fyddai'n cael ei hariannu o gyllidebau dirprwyedig ysgolion.

1.18 Nid yw'r gyllideb yn cynnwys cyllid ychwanegol i gynorthwyo ysgolion i roi'r cymwysterau newydd ar waith. Bydd angen adolygu hyn yn 2023 ac wedi hynny pan fydd Cymwysterau Cymru'n ystyried goblygiadau newidiadau i gymwysterau ehangach ar gyfer dysgwyr 14-16 oed a Safon Uwch ac yn cyhoeddi manylion pellach am gynnwys a ffurf yr asesiadau ar gyfer TGAU newydd. Bydd angen iddo ystyried unrhyw gostau uwch i gyrff dyfarnu neu godiadau dilynol mewn ffioedd cofrestru hefyd.

1.19 Yn ogystal â chostau uniongyrchol diwygio'r cwricwlwm, mae ysgolion yn wynebu costau cyfle sylweddol hefyd. Mae'r rhain yn cynrychioli'r amser pan nad yw staff ar gael ar gyfer gwaith arall am eu bod yn cyflawni gweithgareddau sy'n gysylltiedig â'r cwricwlwm newydd ac nad yw'n cael ei ariannu â grantiau Llywodraeth Cymru i dalu am athrawon cyflenwi yn eu lle. Mae Llywodraeth Cymru'n amcangyfrif bod y costau cyfle sy'n gysylltiedig â diwygio'r cwricwlwm yn £263 miliwn rhwng mis Ebrill 2021 a mis Mawrth 2026 (gan amrywio rhwng £131.4 miliwn a £394.4 miliwn) (**Arddangosyn 6**). Amcangyfrifir bod costau cyfle naw gwaith yn fwy na'r costau uniongyrchol i ysgolion yn y cyfnod hwn.

**Arddangosyn 6: amcangyfrifon Llywodraeth Cymru o gost y cwricwlwm newydd gan gynnwys costau cyfle i ysgolion, 2021-22 i 2030-31**




Sylwer: Mae'r ffigyrau'n ystyried diwrnodau HMS a'r diwrnod HMS ychwanegol ar gyfer diwygio'r cwricwlwm yn 2021/22.

Ffynhonnell: Dadansoddiad Archwilio Cymru o'r ddogfen Llywodraeth Cymru, Bil y Cwricwlwm ac Asesu (Cymru), Memorandwm Esboniadol sy'n ymgorffori'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol a Nodiadau Esboniadol (diwygiedig), Ebrill 2021

1.20 Rydym yn amcangyfrif bod y costau cyfle'n gyfwerth ag 1.4 miliwn o ddiwrnodau rhwng mis Ebrill 2021 a mis Mawrth 2026[12]. Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn dangos bod y rhan fwyaf o'r costau cyfle'n digwydd yn 2021-22 a 2022-23. Fodd bynnag, ceir risg y bydd rhai costau cyfle'n llithro i adegau hwyrach yn y cyfnod wrth i ddarparwyr uwchradd fanteisio ar yr hyblygrwydd i ohirio mabwysiadu'r cwricwlwm newydd ar gyfer blwyddyn 7.

1.21 Yn flaenorol fe wnaethom gwestiynu a allai ysgolion amsugno'r amser hwn heb effeithio ar gynnydd dysgwyr cyfredol a/neu les staff. Fe wnaethom hefyd fynegi amheuaeth pa un a fyddai digon o staff cyflenwi ar gael, o ystyried galw uwch am gyflenwi yn ystod absenoldebau oherwydd COVID-19 ac yn sgîl recriwtio oddeutu 1,800 o staff ar gyfer cymorth adfer[13]. Roedd Llywodraeth Cymru'n disgwyl i gostau cyfle gael eu hamsugno mewn amryw ffyrdd, gan gynnwys trwy ymarfer arloesol a chydweithio. Rydym yn deall y bydd ymchwil i barodrwydd ysgolion, sydd i fod i gael ei chyhoeddi'n fuan, yn myfyrio'n rhannol ynghylch y modd y mae ysgolion wedi rheoli pwysau o ran llwyth gwaith sy'n gysylltiedig â'r cwricwlwm newydd.

12 Cyfrifir ffigyrau gan dybio cost o £180 y dydd ar gyfer athrawon cyflenwi y prynir eu gwasanaeth trwy gontract fframwaith Llywodraeth Cymru yn 2020-21. Mewn blynyddoedd dilynol tybir codiad cyflog blynyddol o 2.5%.

13 Archwilydd Cyffredinol Cymru, Ymateb i ymgynghoriad Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg y Senedd ar Fil y Cwricwlwm ac Asesu (Cymru), Medi 2020. Mae'r ffigyrau a ddefnyddir yn yr adroddiad hwn wedi'u diwygio i gynnwys lwfans ar gyfer codiad cyflog 2020-21.

# Paratoi i roi'r cwricwlwm ar waith: Bu Llywodraeth Cymru'n gweithio'n dda gyda'r proffesiwn addysg i gyd-ddylunio'r cwricwlwm er bod y pandemig wedi effeithio ar yr amserlen ac ar allu ysgolion i baratoi

02

2.1 Mae’r rhan hon o’r adroddiad yn bwrw golwg ar ddatblygu’r cwricwlwm newydd a sut y mae Llywodraeth Cymru wedi cynorthwyo ysgolion i baratoi i’w roi ar waith cyn ei addysgu o fis Medi 2022.

## Bu Llywodraeth Cymru a’r consortia addysg rhanbarthol yn gweithio gydag ysgolion i gyd-ddylunio’r cwricwlwm newydd ac adnabod y sgiliau a’r wybodaeth a oedd yn ofynnol i’w wireddu

2.2 Ym mis Hydref 2015, nododd Llywodraeth Cymru ei chynlluniau ar gyfer rhwydweithiau o ysgolion arloesi. Roedd y rhwydwaith cyntaf yn cynnwys 68 o ysgolion arloesi’r cwricwlwm â ffocws ar ddylunio’r cwricwlwm newydd, a hwythau’n cael eu cefnogi gan y consortia addysg rhanbarthol. Fe wnaeth y dull hwn alluogi ysgolion i arwain y gwaith o ddatblygu’r cwricwlwm, er bod gwerthusiad dilynol a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru wedi canfod nad oedd yr holl ysgolion arloesi’n deall y disgwyliad hwn ar y dechrau.

2.3 Fe gymerodd amser i daro cydbwysedd rhwng perchnogaeth gan ymarferwyr ar y naill law a chymorth a chyfarwyddyd strategol ar y llaw arall. I ddechrau, roedd y cynnydd yn araf a, thros amser, bu Llywodraeth Cymru’n ymwneud yn fwyfwy â chydlynu a chefnogi ysgolion, consortia a phartneriaid eraill. Roedd hi’n haws i ysgolion cynradd ddatblygu a phrofi dull ysgol gyfan lle’r oedd y cwricwlwm newydd yn y cwestiwn, yn rhannol am bod tebygrwydd rhyngddo a’r cyfnod sylfaen presennol ac am nad oedd arholiadau’n cyfyngu arnynt[14].

2.4 Bu ail rwydwaith o 60 o ysgolion arloesi dysgu proffesiynol yn canolbwyntio ar adnabod y sgiliau a’r wybodaeth y mae ar athrawon eu hangen i wireddu’r cwricwlwm newydd a datblygu safonau proffesiynol newydd ar gyfer athrawon. Daeth y ddau rwydwaith ysgolion arloesi i ben yn ffurfiol yn 2019 er bod is-set o 16 o ‘ysgolion arloesi’ wedi parhau i ystyried y cwricwlwm drafft yn ystod 2020. Dangosodd adroddiad gan Estyn ym mis Mawrth 2022 fod y mwyafrif o ysgolion nad oeddent yn y rhwydwaith ysgolion arloesi wedi dweud na chawsant eu hysbysu’n ddigon rheolaidd am ddatblygiadau cenedlaethol[15].

14 Ymchwil Arad ar y cyd ag ICF Consulting Limited, Gwerthusiad Ffurfiannol o’r Model Ysgolion Arloesi: Adroddiad Terfynol, Gorffennaf 2018

15 Estyn, Y Cwricwlwm i Gymru – Sut mae consortia rhanbarthol ac awdurdodau lleol yn cefnogi ysgolion? Mawrth 2022

2.5 Darparodd Llywodraeth Cymru £7.4 miliwn i gefnogi ysgolion braenaru ac arloesi yn 2018-19 a 2019-20. Fe wnaeth y cyllid alluogi ysgolion i ryddhau un aelod o staff am ddeuddydd yr wythnos yn y cyfnod cynnar. Canfu'r gwerthusiad a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru, er bod yr amser yn ddigon i ddechrau, fod nifer o ysgolion wedi dweud yn ddiweddarach eu bod yn treulio mwy na deuddydd yr wythnos a bod llawer o ymarferwyr yn gwneud peth gwaith ar y cwricwlwm yn eu hamser eu hunain.

2.6 Mae Llywodraeth Cymru'n cydnabod bod cyd-ddylunio'r cwricwlwm newydd wedi cymryd amser hir. Roedd y dull yn ffordd newydd o weithio i bawb. Canfu'r gwerthusiad yn 2018 ei bod wedi cymryd amser i daro'r cydbwysedd priodol rhwng perchnogaeth gan ymarferwyr ar y naill law a chymorth a chyfarwyddyd strategol ar y llaw arall. Dros amser, fe wellodd arweinyddiaeth strategol, gyda mwy o gydberchnogaeth ar ddatblygu trefniadau newydd y cwricwlwm ar y cyd rhwng partneriaid ar bob lefel.

## Mae Llywodraeth Cymru wedi ariannu rhaglen o ddysgu proffesiynol a chymorth i ysgolion sy'n gysylltiedig â'r cwricwlwm newydd er nad yw ei heffeithiolrwydd yn glir

2.7 Mae'r Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd wedi pwysleisio bod gwella addysgu'n ganolog i ddiwygio addysg yng Nghymru[16]. Ym mis Rhagfyr 2020, canfu Estyn, er bod rhai cryfderau, fod angen gwella profiadau dysgu ac addysgu yn oddeutu chwarter yr ysgolion cynradd ac ychydig yn llai na hanner yr ysgolion uwchradd a arolygwyd[17]. Mae rhaglen ddiwygio ehangach Llywodraeth Cymru'n cynnwys nifer o fentrau sy'n amcanu at wella safonau addysgu i gyd-fynd â'r cwricwlwm newydd, gan gynnwys newidiadau i addysg gychwynnol i athrawon a'r safonau proffesiynol newydd ar gyfer athrawon a gyhoeddwyd yn 2017[18]. Yn 2021, cydnabu'r Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd y bu lefel uchel o ymrwymiad i ddysgu proffesiynol athrawon yng Nghyfarwyddiaeth Addysg Llywodraeth Cymru[19].

16 Y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd, Improving schools in Wales: an OECD perspective, Ebrill 2014; Y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd, Improving schools in Wales, The Welsh Educational Reform Journey: A rapid policy assessment, 2017; Y Sefydliad Cenedlaethol ar gyfer Ymchwil Addysgol ac Ymchwil Arad, A Rapid Evidence Assessment on the Impact of Curriculum and Assessment Arrangements within High Performing Countries, Ymchwil Gymdeithasol Llywodraeth Cymru 65/2013

17 Estyn, Adroddiad Blynyddol Prif Arolygydd Ei Mawrhydi ar gyfer Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru 2019-20, Rhagfyr 2020

18 Ymchwil Arad, Gwerthusiad o'r safonau proffesiynol ar gyfer addysgu, arwain a chynorthwyo gwaith addysgu: Adroddiad Blwyddyn 1, Tachwedd 2021

19 OECD, Teachers' professional learning study: Diagnostic report for Wales, July 2021

2.8 Mae Llywodraeth Cymru wedi cefnogi rhaglen dysgu proffesiynol yn benodol i arfogi athrawon â'r wybodaeth a'r sgiliau y mae eu hangen arnynt i ddeall y cwricwlwm newydd, ymgymryd â rôl newydd fel dylunwyr cwricwlwm a gwireddu'r cwricwlwm newydd. Fe ddarparodd ychydig dros £24 miliwn ar gyfer consortia yn 2020-21 a 2021-22 (**Arddangosyn 7**). Roedd hyn yn cynnwys cyllid craidd ar gyfer gwaith y consortia ar ddiwygio'r cwricwlwm, ar gyfer cymorth i ysgolion unigol a dysgu proffesiynol a oedd yn gysylltiedig â'r cwricwlwm newydd. Darparodd Llywodraeth Cymru £12 miliwn hefyd ar gyfer y consortia ac awdurdodau lleol i alluogi ysgolion i ryddhau staff ar gyfer gweithgareddau dysgu proffesiynol, y bydd rhywfaint ohonynt yn gysylltiedig â'r cwricwlwm newydd.

**Arddangosyn 7: cyllid gan Lywodraeth Cymru i gonsortia a phartneriaethau addysg rhanbarthol ar gyfer gwaith sy'n uniongyrchol gysylltiedig â'r cwricwlwm newydd**[1, 2, 3]

| | **2020-21 (£ miliynau)** | **2021-22 (£ miliynau)** |
|---|---|---|
| Cymorth gyda'r cwricwlwm ac asesu i ysgolion | 3.9 | 9.8 |
| Cymorth craidd i gonsortia gyda dylunio a datblygu'r cwricwlwm newydd | 1.8 | 1.2 |
| Dysgu proffesiynol sy'n uniongyrchol gysylltiedig â'r cwricwlwm newydd | 2.3 | 5.2 |
| **Cyfanswm** | **8.0** | **16.2** |

Nodiadau:

1 Dosbarthwyd y cyllid hwn i'r tri chonsortiwm addysg rhanbarthol a'r awdurdodau lleol a arferai fod yng nghonsortiwm ERW yn seiliedig yn bennaf ar fformiwla y cytunwyd arni.

2 Nid yw'r cyfanswm yn cynnwys cyllid ar gyfer dysgu proffesiynol cyffredinol a gweithgareddau sy'n ymwneud â'r rhaglen Adnewyddu a Diwygio nad ydynt yn uniongyrchol gysylltiedig â'r cwricwlwm newydd ond sy'n debygol o fod o gymorth i'w ddatblygu.

3 Wrth edrych tua'r dyfodol, mae'r consortia rhanbarthol wedi addasu eu gweithgareddau a'u strwythurau i gefnogi gwaith i ddiwygio'r cwricwlwm ac nid ydynt yn disgwyl costau pellach.

Ffynhonnell: Dadansoddiad Archwilio Cymru o ddata a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru, Ionawr 2022

2.9 Cafodd y rhwydwaith dysgu proffesiynol ei atal yng nghyfnod cynnar y pandemig ond mae wedi cynyddu o ran graddfa a chyflymder ers hynny. Mae cryn dipyn o waith wedi cael ei wneud ar-lein. Roedd gan gonsortia ac awdurdodau lleol ryddid i ddatblygu cymorth sy’n cyd-fynd â’u blaenoriaethau lleol. Mae’r ffocws ar gefnogi ysgolion yn nodi newid o ffocws gwreiddiol y consortia ar herio ysgolion. Yn 2021, canfu’r Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd nad oedd y newid hwn mewn dull wastad yn eglur ar lefel ysgolion (gweler **troednodyn 19**). Fe rybuddion nhw y ‘bydd creu system yn seiliedig ar ymddiriedaeth yn anos os yw consortia’n dal yn gysylltiedig â’r hen fodel o atebolrwydd o’r brig i lawr’.

2.10 Gofynnodd Llywodraeth Cymru i Estyn adolygu cymorth y consortia ac awdurdodau lleol i ysgolion gyda’r cwricwlwm newydd. Mewn gwaith a wnaed yn nhymor yr hydref 2021 ac y cyhoeddwyd yr adroddiad arno ym mis Mawrth 2022, canfu Estyn fod ysgolion wedi cael cymorth i ddatblygu eu gweledigaeth ar gyfer addysgu a’r cwricwlwm newydd (gweler **troednodyn 15**). Argymhellodd Estyn fod Llywodraeth Cymru’n ystyried dulliau i alluogi’r consortia rhanbarthol ac awdurdodau lleol i fynd ati’n well i werthuso effaith a deilliannau eu gwaith i gefnogi’r cwricwlwm ac addysgu a chael eu dwyn i gyfrif amdano. Mae Llywodraeth Cymru’n bwriadu sefydlu gweithgor i ystyried y mater fel rhan o adolygiad o’r Dull Cenedlaethol ar gyfer Dysgu Proffesiynol.

2.11 Mae gwasanaethau gwella ysgolion yn Ne-Orllewin Cymru wedi newid dros y blynyddoedd diwethaf. Nes iddo gael ei ddirwyn i ben yn ffurfiol ym mis Awst 2021, roedd consortiwm ERW yn cynnwys cynghorau Castell-nedd Port Talbot, Abertawe, Sir Gâr, Sir Benfro, Ceredigion a Phowys. Rhoddodd Cyngor Castell-nedd Port Talbot rybudd i adael y consortiwm ym mis Mawrth 2019. Gadawodd y cynghorau eraill yn ddiweddarach.

2.12 Mae cynghorau Sir Benfro, Abertawe a Sir Gâr wedi ffurfio consortiwm o'r enw Partneriaeth y mae'r cwricwlwm ac arloesi'n faes allweddol iddo o ran ei waith. Mae cynghorau Ceredigion a Phowys wedi ffurfio Partneriaeth Addysg Canolbarth Cymru, a danategir gan femorandwm cyd-ddealltwriaeth. Nid yw Castell-nedd Port Talbot mewn consortiwm na phartneriaeth. Ar ôl gadael ERW, nid oes gan Geredigion, Powys a Chastell-nedd Port Talbot fynediad mwyach at unrhyw ddeunyddiau newydd a gynhyrchir gan gonsortia. Ym mis Chwefror 2022, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y byddai deunyddiau a gynhyrchir gan unrhyw gonsortia ar gael i bawb drwy'r Hwb, llwyfan dysgu digidol Llywodraeth Cymru, o fis Medi 2022 ymlaen. Ym mis Mawrth 2022, fe nododd Estyn, er eu bod yn datblygu strwythurau addas i gefnogi eu hysgolion, mai dim ond newydd ddechrau datblygu yr oedd gwaith Partneriaeth, Partneriaeth Addysg Canolbarth Cymru a Chyngor Castell-nedd Port Talbot a'i bod yn rhy gynnar i fesur ei effaith.

2.13 Mae dysgu proffesiynol ar gael i gynorthwywyr addysgu neu athrawon cyflenwi er eu bod yn wynebu mwy o anawsterau wrth geisio cael adnoddau. Ym mis Chwefror 2022, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru 'hawl genedlaethol' i athrawon a chynorthwywyr addysgu gael cymorth ac adnoddau o ansawdd da y ceir mynediad atynt drwy'r Hwb a chonsortia a phartneriaethau rhanbarthol. Dywedodd y bydd manylion yr hawl hon ar gael erbyn dechrau blwyddyn academaidd 2022/23.

## Mae pandemig COVID-19 wedi effeithio ar allu ysgolion i gynllunio ar gyfer y cwricwlwm newydd, gan ysgogi Llywodraeth Cymru i gynnig peth hyblygrwydd i ddarparwyr uwchradd ohirio rhoi'r cwricwlwm ar waith

### Yn wreiddiol fe wnaeth pandemig COVID-19 leihau gallu ysgolion i ymateb i'r cwricwlwm newydd drafft a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2020

2.14 Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ganllawiau drafft ynghylch meysydd allweddol yn y cwricwlwm newydd ym mis Ionawr 2019 a fframwaith cwricwlwm newydd drafft ym mis Ebrill 2019. Ar ôl ymgynghori manwl, cyhoeddodd fersiynau wedi'u diweddaru ym mis Ionawr 2020. Dylai hyn fod wedi rhoi dechreuad cyflym i waith dwys gan ysgolion i ddatblygu eu cwricwla eu hunain. Fodd bynnag, nid oedd ysgolion yn gallu gwneud cynnydd wrth i bryderon ynghylch pandemig COVID-19 dyfu, gydag ysgolion yn cau eu drysau i ddisgyblion ym mis Mawrth 2020 (**Arddangosyn 8**). Rhoddodd ysgolion ac athrawon flaenoriaeth i gefnogi lles disgyblion ac addasu i ddysgu o bell ac, mewn ysgolion uwchradd, i ddarparu graddau a bennir gan y ganolfan pan gafodd arholiadau 2020 eu canslo.

**Arddangosyn 8: cau ysgolion yn genedlaethol yng Nghymru, rhwng mis Mawrth 2020 a mis Ebrill 2021**

### 20 Mawrth 2020

Ysgolion yn cau, ac eithrio darpariaeth i blant agored i niwed a phlant gweithwyr hanfodol.

### 29 Mehefin 2020

Ysgolion yn agor i bob grŵp blwyddyn am gyfnodau cyfyngedig, gyda dim ond traean o'r disgyblion yn yr ysgol ar unrhyw adeg benodol

### 17 Gorffennaf 2020

Ysgolion yn cau ar gyfer gwyliau'r haf (fe barhaodd Conwy, Powys a Sir Benfro tan 25 Gorffennaf).

### 1 Medi 2020

Dychweliad graddol i rai ysgolion gyda hyblygrwydd i ganolbwyntio ar grwpiau sy'n flaenoriaeth

### 14 Medi 2020

Ysgolion yn agor i'r holl ddisgyblion

### 26 Hydref 2020

Ysgolion i gyd ar gau o 26-30 Hydref 2020 ar gyfer hanner tymor yr hydref (19-30 Hydref 2020 oedd hanner tymor yng Nghonwy, Powys a Sir Benfro 2020).

### 2 Tachwedd 2020

Dim disgwyl i ddisgyblion ym mlwyddyn 9 ac uwch fod yn bresennol yn yr ysgol yn ystod yr wythnos yn dechrau 2 Tachwedd 2020, oherwydd cyfnod atal byr COVID-19.

### 14 Rhagfyr 2020

Fe newidiodd yr holl ysgolion uwchradd i ddysgu o bell ar-lein am wythnos olaf y tymor cyn gwyliau'r Nadolig. Fe gaeodd llawer o ysgolion cynradd.

### 4 Ionawr 2021

Fe gaeodd yr holl ysgolion a newid i ddysgu o bell ar-lein, ac eithrio darpariaeth i blant agored i niwed a phlant gweithwyr hanfodol.

### 22 Chwefror 2021

Dechreuodd dychweliad graddol disgyblion y Cyfnod Sylfaen (disgyblion 3-7 oed)

### 15 Mawrth 2021

Gallai'r holl ddisgyblion cynradd a oedd yn weddill a'r disgyblion uwchradd ym mlynyddoedd 11 a 13 ddychwelyd i wersi ar y safle. Gallai blynyddoedd uwchradd eraill ddychwelyd ar gyfer sesiynau lles. Profi asymptomatig gwirfoddol ar gael i flynyddoedd 10 ac uwch.

### 12/13 Ebrill 2021

Gallai'r holl ddisgyblion a oedd yn weddill ddychwelyd i wersi ar y safle. Profi asymptomatig gwirfoddol ar gael i ddisgyblion uwchradd.

Sylwer: Bu gan rai ysgolion ac awdurdodau lleol gyfnodau ychwanegol pan oedd ysgolion ar gau.

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru, Llinell amser cau ysgolion yn ystod pandemig y coronafeirws (COVID-19), rhwng mis Mawrth 2020 a mis Ebrill 2021

2.15 Fe ddargyfeiriodd Llywodraeth Cymru nifer o weision sifil i waith a oedd yn gysylltiedig â'r pandemig ond fe barhaodd i drin y cwricwlwm newydd fel blaenoriaeth. Fe ddiweddarodd 'Addysg yng Nghymru: Cenhadaeth Ein Cenedl, Cynllun Gweithredu' ym mis Hydref 2020 gyda cherrig milltir diwygiedig ar gyfer yr holl raglen i ddiwygio addysg. Cyhoeddodd 'Cwricwlwm i Gymru: y daith i 2022' hefyd a oedd yn nodi gweithgareddau allweddol i ysgolion ym mhob tymor hyd at fis Medi 2022.

**Fe ymatebodd Llywodraeth Cymru i bryderon ynghylch parodrwydd rhai ysgolion trwy gynnig hyblygrwydd i ddarparwyr uwchradd ohirio rhoi'r cwricwlwm newydd ar waith**

2.16 Nid oedd y cynlluniau a nodwyd yn 'Y Daith i 2022' yn darparu ar gyfer unrhyw effaith bellach o ganlyniad i bandemig COVID-19. Fodd bynnag, tarfwyd yn sylweddol ar y rhan fwyaf o ysgolion yn nhymor yr hydref 2020, gyda phob ysgol yn newid i ddysgu o bell ym mis Chwefror 2021. Darparodd ysgolion uwchradd raddau a bennir gan y ganolfan eto yn 2021. Ym mis Gorffennaf 2021, nododd Estyn fod ysgolion uwchradd[20], ysgolion arbennig ac unedau cyfeirio disgyblion[21] yn amrywio'n eang o ran eu paratoadau ar gyfer y cwricwlwm newydd. Fe geisiodd arweinwyr ysgolion cynradd sicrwydd na fyddai disgwyl i ysgolion fod wedi cwblhau eu cwricwlwm erbyn mis Medi 2022 ond y byddent yn gallu mireinio'u cwricwla dros amser[22].

2.17 Daeth adolygiad mewnol o'i pharodrwydd ei hun ar gyfer rhoi'r cwricwlwm newydd ar waith i'r casgliad bod rhaglen waith Llywodraeth Cymru ar y trywydd iawn gan mwyaf ond mynegodd bryderon ynghylch parodrwydd rhai partneriaid ac ysgolion. Roedd yr adolygiad nas cyhoeddwyd yn amlygu pwysigrwydd bod yn glir ynglŷn â'r amserlen. Roedd hefyd yn amlygu'r angen taer am eglurder ynglŷn â phenderfyniadau ynghylch asesu a chymwysterau, yr ystyrid eu bod yn rhwystr mawr i allu ysgolion uwchradd i ymgysylltu'n llawn â datblygu'r cwricwlwm.

20 Estyn, Gwaith ymgysylltu: Diweddariad ar y sector uwchradd, Tymor yr haf 2021, Gorffennaf 2021

21 Estyn, Gwaith ymgysylltu: Diweddariad ar ysgolion arbennig a gynhelir ac unedau cyfeirio disgyblion, Tymor yr haf 2021, Gorffennaf 2021

22 Estyn, Gwaith ymgysylltu: Diweddariad ar y sector cynradd, Tymor yr haf 2021, Gorffennaf 2021

2.18 Ym mis Gorffennaf 2021, fe gadarnhaodd Llywodraeth Cymru y byddai'r broses o gyflwyno'r cwricwlwm newydd mewn ysgolion cynradd yn dechrau fel a fwriadwyd ym mis Medi 2022[23]. Fodd bynnag, bydd yn ddewisol i ysgolion uwchradd, ysgolion 3-16, ysgolion arbennig ac unedau cyfeirio disgyblion tan fis Medi 2023 pan fydd yn dod yn orfodol i flynyddoedd 7 ac 8 a lleoliadau eraill. Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru hefyd y byddai cyllid ychwanegol o £7.2 miliwn a mesurau i leihau llwyth gwaith athrawon i greu lle ar gyfer gwaith sy'n gysylltiedig â'r cwricwlwm newydd[24]. Roedd y rhan fwyaf o randdeiliaid yn croesawu'r hyblygrwydd hwn, er bod rhai wedi dweud wrthym na ddylai fod unrhyw oedi pellach fel bod dysgwyr yn gallu cael budd o'r cwricwlwm newydd sydd wedi bod ar y gweill ers amser hir.

2.19 Ym mis Mehefin 2021, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei rhaglen Adnewyddu a Diwygio[25] i gefnogi lles a chynnydd yn ystod y pandemig. Ym mis Medi 2021, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei fersiwn ddiwygiedig o 'Cwricwlwm i Gymru: y siwrne i roi'r cwricwlwm ar waith'. Fe ddisodlodd y ddogfen hon 'Siwrne i 2022', gan gydnabod effaith tarfu parhaus ers mis Hydref 2020 ac integreiddio gwaith ar y cwricwlwm newydd yn fwy eglur â gwaith i adfer o effaith y pandemig. Mae'n nodi ar lefel uchel yr hyn y mae angen i ysgolion ei wneud cyn dechrau addysgu'r cwricwlwm newydd, gan ei gwneud yn glir bod hyn yn ddechrau ar broses gylchol i ysgolion o adolygu a mireinio eu cwricwla. Mae bron i hanner yr ysgolion uwchradd, canol ac arbennig yn bwriadu cyflwyno'r cwricwlwm newydd ym mis Medi 2022.

23 Llywodraeth Cymru, Datganiad ar Lafar: Diwygio'r cwricwlwm – Y Camau Nesaf, Gorffennaf 2021

24 Roedd y mesurau hyn yn cynnwys atal asesiadau ymhellach mewn ysgolion cynradd a hwythau wedi cael eu hatal yn 2020, gohirio ailgychwyn arolygiadau Estyn a gwneud rhai newidiadau i flwyddyn gyntaf newidiadau arfaethedig i ddiwygio anghenion dysgu ychwanegol.

25 Llywodraeth Cymru, Adolygu a diwygio: cefnogi lles a chynnydd dysgwyr, Ein cynllun adfer addysg o COVID-19, Mehefin 2021

**Mae gwaith ychwanegol a achoswyd gan bandemig COVID-19 yn lleihau gallu ysgolion i baratoi ar gyfer y cwricwlwm newydd, ond mae'r pandemig wedi arwain at rai newidiadau manteisiol**

2.20 Mae athrawon ac arweinwyr ysgolion yn cefnogi'r cwricwlwm newydd yn gryf. Yn nhymor yr haf 2021, roedd 98% o uwch arweinwyr a 78% o ymarferwyr yn cytuno eu bod yn ymrwymedig i ddyheadau'r Cwricwlwm i Gymru. Fodd bynnag, roedd llai ohonynt yn teimlo bod eu hysgolion mewn sefyllfa dda i ddylunio'u cwricwlwm eu hunain neu i newid eu hymarfer proffesiynol cyn mis Medi 2022[26]. Roedd ar ddwy ran o dair (67%) o arweinwyr ysgolion ac ymarferwyr eisiau cymorth a/neu adnoddau ychwanegol cyn i'r cwricwlwm gael ei gyflwyno. Roedd arnynt eisiau amser ychwanegol i ddatblygu adnoddau, cael mynediad at gyfleoedd dysgu proffesiynol wedi'u teilwra, bod yn rhan o fyfyrio a gwaith paratoi i fireinio strategaethau addysgu a chydweithio gydag ysgolion eraill. Gofynnwyd am fwy o ganllawiau a chymorth mewn perthynas â disgwyliadau ar gyfer asesu a chynnydd. Nododd adroddiad a gyflwynwyd i Lywodraeth Cymru ym mis Tachwedd 2021 ac a gyhoeddwyd yn ddiweddar hefyd bryderon am gefnogaeth i arweinwyr ynghylch y cwricwlwm newydd[27].

2.21 Ym mis Gorffennaf 2021, nododd Estyn fod arweinwyr ysgolion cynradd yn credu bod ar eu hysgolion angen cyfnod maith, di-dor i ddatblygu eu dulliau cwricwlaidd (gweler **troednodyn 22**). Canfu arolwg ym mis Mehefin ac ym mis Gorffennaf 2021 fod 54% o uwch arweinwyr a 62% o ymarferwyr wedi dweud na fu amser yn amserlen yr ysgol ar gyfer gwaith ar y cwricwlwm[28]. Roedd yr hyblygrwydd i ysgolion uwchradd ohirio rhoi'r cwricwlwm ar waith, a'r mesurau i greu lle yn amserlen yr ysgol yn cael eu croesawu'n eang, ond mae amgylchiadau wedi parhau i darfu'n sylweddol ar ysgolion ym mlwyddyn academaidd 2021/22. Mae llawer o ysgolion wedi profi lefelau absenoldeb uchel ac yn parhau i wneud hynny. Yn yr wythnos 4-8 Ebrill 2022, roedd cyfartaledd o 86.8% o'r holl ddisgyblion yn bresennol, gyda'r ganran yn gostwng i 81% o ddisgyblion blwyddyn 12 a 72% o ddisgyblion blwyddyn 13. Mae ysgolion wedi profi anawsterau hefyd gyda lefelau absenoldeb uchel ymhlith staff, ac mae rhai wedi cael anhawster dod o hyd i staff cyflenwi, gan achosi i rai gau dros dro.

26 Ymchwil Arad, Arolwg Ymarferwyr ar baratoadau ar gyfer cyflwyno'r Cwricwlwm i Gymru: adroddiad terfynol, Ionawr 2022. Roedd 81% o arweinwyr a 53% o ymarferwyr yn teimlo'u bod mewn sefyllfa dda i ddylunio'u cwricwlwm eu hunain ar gyfer mis Medi 2022. Roedd 86% o uwch arweinwyr a 53% o ymarferwyr yn ystyried bod eu hysgol mewn sefyllfa dda i wneud newidiadau i'w hymarfer proffesiynol yn barod ar gyfer mis Medi 2022.

27 Harris, A., Hutt, M., Jones, M. a Longville, J, Adolygiad annibynnol o arweinyddiaeth: Adroddiad terfynol, Llywodraeth Cymru, Mai 2022

28 Ymchwil Arad, Arolwg Ymarferwyr ar baratoadau ar gyfer diwygio'r cwricwlwm a threfniadau asesu yn 2022: canfyddiadau interim ar gyfer uwch arweinwyr ysgolion cynradd ac uwchradd, Medi 2021

2.22 Ym mis Rhagfyr 2021, fe wnaeth y Prif Arolygwr ar gyfer Addysg a Hyfforddiant sylw am y lefel ddigynsail o bwysau y mae staff ysgolion wedi'i hwynebu yn ystod blwyddyn academaidd 2020/21. Er bod llawer wedi dyfalbarhau gyda'r siwrne i ddiwygio'r cwricwlwm ac elfennau eraill o'r rhaglen ddiwygio, pwysleisiodd na ddylai unrhyw un danamcangyfrif y baich ar staff.

2.23 Ni wŷr unrhyw un sut y bydd y pandemig yn effeithio ar ysgolion yng ngweddill 2022 a'r tu hwnt. Mae Estyn wedi pwysleisio ei bod yn bwysig i ysgolion barhau i flaenoriaethu lles disgyblion[29]. Gofynnodd Llywodraeth Cymru i Estyn ymgysylltu ag ysgolion i adolygu cynnydd gyda'r cwricwlwm newydd yn yr amgylchedd heriol hwn a gofynnodd am wybodaeth gan gonsortia am eu gwaith gydag ysgolion. Gyda'i gilydd gall yr wybodaeth hon oleuo ffordd Llywodraeth Cymru o feddwl am y dyfodol ymysg pryderon ynghylch eu gallu i baratoi ar gyfer y cwricwlwm newydd o ystyried y pwysau parhaus yn sgîl y pandemig.

2.24 Ym, mis Gorffennaf 2021, canfu Estyn fod arweinwyr yn y rhan fwyaf o ysgolion yr ymwelwyd â hwy'n gweithio'n effeithiol gyda rhanddeiliaid ac yn treulio perth wmbredd o amser yn datblygu gweledigaeth ar gyfer eu hysgol a'i disgyblion (gweler **troednodiadau 20-22**). Nid yw'n syndod bod Estyn wedi canfod bod yr ysgolion a fu'n ysgolion arloesi ar y blaen i eraill o ran eu ffordd o feddwl a'u paratoadau, ond canfuont rwystrau cyffredin i gynnydd (**Arddangosyn 9**).

29 Estyn, Adroddiad Blynyddol Prif Arolygwr Ei Mawrhydi ar gyfer Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru 2020-21, Rhagfyr 2021

**Arddangosyn 9: rhwystrau cyffredin i symud ymlaen gyda'r cwricwlwm newydd mewn ysgolion**

- **Creu amser i ddatblygu'r cwricwlwm ac ar gyfer dysgu proffesiynol –** o ystyried pwysau'r pandemig ar ben y llwyth gwaith arferol.
- **Nid yw'r holl athrawon wedi cymryd rhan yn y dysgu proffesiynol y mae ei angen i ddeall y dull –** roedd hyn wedi peri i rai ysgolion ddylunio cwricwlwm heb ddeall yn llawn beth yw egwyddorion y dull.
- **Ansicrwydd ynghylch cymwysterau yn y dyfodol –** canfu ymchwil a gomisiynwyd gan Cymwysterau Cymru fod ansicrwydd ynghylch cymwysterau yn y dyfodol a'r cydbwysedd rhwng pynciau unigol neu Feysydd Dysgu a Phrofiad integredig yn golygu bod rhai ysgolion uwchradd yn gyndyn o symud ymlaen[30]. Yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus, cyhoeddodd Cymwysterau Cymru benderfyniadau lefel uchel ynglŷn â chymwysterau ym mis Hydref 2021, gan ddwyn mwy o eglurder[31]. Dywedodd y byddai'n gweithio gydag athrawon a rhanddeiliaid eraill gan gynnwys dysgwyr i gyd-ddylunio cymwysterau sy'n adlewyrchu'r cwricwlwm newydd.
- **Ffyrdd o weithio a oedd yn gysylltiedig â'r pandemig –** dywedodd arweinwyr ysgolion eu bod yn ei chael yn anos ysbrydoli newid trwy gyfarfodydd o bell. Roedd hi'n anos pwyso a mesur effaith dulliau dysgu ac addysgu newydd gan bod ysgolion wedi bod yn cyflwyno cwricwlwm llai mewn amgylchiadau cyfyngedig ers dychwelyd i addysgu wyneb yn wyneb.

Ffynhonnell: Archwilio Cymru, dadansoddiad o waith gan Estyn (gweler **troednodiadau 20-22**) a Chymwysterau Cymru (gweler **troednodyn 29**)

2.25 Er bod y pandemig wedi achosi anawsterau ar gyfer rhoi'r cwricwlwm ar waith, mae hefyd wedi arwain at rai newidiadau manteisiol. Fe wnaeth atal y cwricwlwm cenedlaethol ym mis Mawrth 2020 a'r gofynion ar gyfer profion diwedd cyfnod alluogi ysgolion i arbrofi a datblygu eu cwricwla. Mae ysgolion ac athrawon wedi blaenoriaethu lles disgyblion, gan roi dechreuad cyflym i waith ar Faes Dysgu a Phrofiad Iechyd a Lles ar gyfer y cwricwlwm newydd (gweler **Arddangosyn 2**).

30 Ymchwil Arad a'r Sefydliad Cenedlaethol ar gyfer Ymchwil Addysgol, Qualified for the future, Crynodeb o'r canfyddiadau, Mehefin 2020

31 Cymwysterau Cymru, Cymwysterau ar gyfer y Dyfodol: Ail-ddychmygu cymwysterau yng Nghymru, Hydref 2021

2.26 Fe wellodd sgiliau digidol athrawon yn gyflym gan y bu'n rhaid iddynt addasu i ddysgu o bell, sy'n gyson ag uchelgeisiau'r cwricwlwm newydd. Yn yr un modd, fe wnaeth llawer o athrawon gydnabod yr angen i ddatblygu sgiliau digidol a dysgu'n annibynnol y disgyblion yn barod ar gyfer heriau dull dysgu mwy deinamig a seiliedig ar brofiadau. Mae'r Prif Arolygwr ar gyfer Addysg a Hyfforddiant wedi awgrymu bod y profiad o ymateb i'r pandemig wedi cynyddu cydnerthedd ysgolion ac athrawon a'u hawch i wneud pethau'n wahanol (gweler **troednodyn 29**).

## Roedd gan Lywodraeth Cymru raglen heriol o waith i'w chwblhau cyn y garreg filltir ym mis Medi 2022, ond mae'r gwaith hwn wedi'i gwblhau gan mwyaf

2.27 Roedd Llywodraeth Cymru'n cydnabod bod ganddi rôl arwyddocaol o ran cynorthwyo ysgolion ac eraill i baratoi ar gyfer y cwricwlwm newydd unwaith yr oedd deddfwriaeth sylfaenol yn ei lle ym mis Ebrill 2021. Roedd ei rhaglen waith yn cynnwys cwblhau canllawiau i ysgolion, sicrhau bod y fframwaith is-ddeddfwriaeth yn ei le a threfnu bod cymorth ar gael i ysgolion. Mae cryn dipyn o'r gwaith hwn wedi'i gwblhau.

2.28 Fe wnaeth Deddf y Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021 sefydlu'r fframwaith ar gyfer y cwricwlwm newydd a nodi'r gofynion ar benaethiaid a llywodraethwyr ysgolion. Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ganllawiau drafft ar gyfer ymgynghori ynghylch rhai materion a oedd yn dal ar y gweill ym mis Mai 2021, yn rhannol am bod angen i'r canllawiau adlewyrchu trafodaethau a materion a godwyd wrth graffu ar y Bil. Roedd testunau'n cynnwys gyrfaoedd a phrofiad sy'n gysylltiedig â gwaith, lleoliadau'r blynyddoedd cynnar (agor llwybrau), y cwricwlwm mewn meithrinfeydd nas cynhelir a sgiliau trawsgwricwlaidd (sgiliau llythrennedd, rhifedd a digidol).

2.29 Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ganllawiau diwygiedig hefyd ar destunau dadleuol crefydd, gwerthoedd a moeseg (CGM) ac addysg rhyw a chydberthynas (ARhaCh) ym mis Mai 2021. Yn ystod hydref 2021 gosododd fersiynau terfynol o'r is-ddeddfwriaeth i alluogi Deddf y Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021 gerbron y Senedd ac fe ddiweddarodd ganllawiau cysylltiedig ynghylch y cwricwlwm. Darparodd hyn fwy o sicrwydd ynghylch y meysydd hanfodol hyn i ysgolion wrth iddynt ddatblygu eu cwricwlwm.

2.30 Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru fanylion ei rhwydwaith cenedlaethol ar gyfer rhoi'r cwricwlwm ar waith ym mis Medi 2021, ddau dymor yn hwyrach na'r bwriad[31]. Mae'r rhwydwaith cenedlaethol yn elfen bwysig o'i chymorth i ysgolion, gan ei fod wedi'i fwriadu i hwyluso cydweithio a sgwrs genedlaethol ar gyfer ysgolion. Mae Llywodraeth Cymru'n cefnogi cyfranogiad trwy ei grant dysgu proffesiynol i ysgolion. Dywedwyd wrthym fod lefelau uchel o absenoldeb yn lleihau cyfranogiad mewn sgyrsiau cychwynnol yn gynnar yn nhymor yr hydref 2021. Fodd bynnag, dywedodd Llywodraeth Cymru wrthym fod cyfraddau cyfranogiad wedi cynyddu'n ddiweddarach.

2.31 Fe wnaeth y Senedd gymeradwyo'r Cod Cynnydd ym mis Rhagfyr 2021, a oedd yn nodi'r hyn y mae'n ei olygu i ddysgwyr wneud cynnydd dan y cwricwlwm newydd wrth iddynt ddatblygu a gwella sgiliau a gwybodaeth. Ym mis Chwefror 2022, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru gymorth cenedlaethol newydd ar gyfer datblygu cynnydd ac asesu yn y cwricwlwm newydd a phrosiect tair blynedd i ddeall a datblygu cynnydd ac asesu (Camau I'r Dyfodol).

32 Llywodraeth Cymru, Addysg yng Nghymru – Cenhadaeth ein cenedl: diweddariad mis Hydref 2020

# Risgiau yn y dyfodol: Mae Llywodraeth Cymru'n effro i rai risgiau allweddol a bydd angen iddi barhau i reoli'r rhain i sicrhau bod y cwricwlwm newydd yn gwireddu ei fanteision disgwyliedig

03

3.1 Nid digwyddiad ‘clec fawr’ yw cyflwyno’r cwricwlwm newydd ond yn hytrach proses gynyddrannol gyda charreg filltir allweddol ym mis Medi 2022. Bydd Llywodraeth Cymru’n dibynnu ar bartneriaid eraill i wireddu’r cwricwlwm newydd, tra’i bod yn mabwysiadu rôl gefnogol. Yn gysgod dros y cyfan mae’r pandemig, sy’n dal i effeithio ar ysgolion. Mae’r adran hon o’r adroddiad yn bwrw golwg ar y risgiau allweddol yn y dyfodol (**Arddangosyn 10**) a sut y mae Llywodraeth Cymru’n ymateb iddynt. Mae Llywodraeth Cymru’n cydnabod y risgiau hyn, ond rydym wedi gwneud argymhellion sy’n amlygu pwysigrwydd parhau i’w rheoli.

**Arddangosyn 10: risgiau allweddol y mae’n rhaid eu rheoli er mwyn i’r cwricwlwm newydd wireddu ei fanteision bwriadedig**

**Pwysau ariannol ac o ran y gweithlu**

gallai’r rhain effeithio ar allu ysgolion i wireddu cwricwlwm newydd o safon uchel.

**Anghydraddoldebau**

sicrhau bod y cwricwlwm newydd o gymorth i gyrraedd nod Llywodraeth Cymru o ran lleihau anghydraddoldebau mewn addysg.

**Cymwysterau newydd**

bydd angen i’r rhain ategu nodau’r cwricwlwm newydd ac ategu dilyniant i’r ystod lawn o opsiynau sydd ar gael i ddysgwyr ôl-16.

**Ymgysylltu**

sicrhau bod ysgolion yn ymgysylltu’n effeithiol â rhieni, gofalwyr a dysgwyr.

**Atebolrwydd, gwerthuso, gwella a thryloywder**

datblygu dull sy’n ategu gwelliant yn ogystal ag atebolrwydd democrataidd a thryloywder.

## Gallai pwysau ariannol ac o ran y gweithlu effeithio ar allu ysgolion i wireddu cwricwlwm newydd o safon uchel

### Gallai pwysau ariannol leihau gallu ysgolion i wireddu cwricwlwm o safon uchel

3.2 Roedd asesiad Llywodraeth Cymru o'r costau yn y dyfodol yn 2020 yn awgrymu na fydd angen adnoddau ar gyfer y cwricwlwm newydd sy'n ychwanegol at y rhai a ddefnyddir ar gyfer y cwricwlwm cyfredol ac eithrio ar gyfer gwaith datblygu (gweler **Arddangosyn 4**). Rydym ni'n meddwl y byddai wedi bod yn rhesymol tybio y gall fod costau ychwanegol, o leiaf o ganlyniad i ofynion newydd mewn perthynas ag ieithoedd tramor modern ac addysg gyrfaoedd mewn ysgolion cynradd nad ydynt wedi'u cynnwys yn yr amcangyfrif o'r costau yn yr asesiad effaith rheoleiddiol. Ond, a rhoi hyn o'r neilltu, ym mis Hydref 2021 fe wnaethom amlygu bod cyllid i ysgolion wedi gostwng dros y degawd blaenorol a bod llawer o ysgolion yn profi anawsterau ariannol cyn y pandemig[33]. Ar y cyd â'r tebygolrwydd o gyllid cyhoeddus tynn yn y dyfodol a phwysau sy'n cystadlu â'i gilydd ar gyllidebau cynghorau, ceir risg y bydd cyllidebau tynn neu negatif yn cyfyngu ar uchelgeisiau ysgolion ar gyfer y cwricwlwm newydd.

3.3 Mae ysgolion yn cael y mwyafrif o'u cyllid gan awdurdodau lleol sydd, yn eu tro, yn cael grant heb ei neilltuo gan Lywodraeth Cymru. Canfu adolygiad o gyllid ysgolion yn 2020 fod cyllid dirprwyedig cynghorau i ysgolion yn amrywio ledled Cymru ar ôl rhoi cyfrif am wahaniaethau yn nodweddion dysgwyr ac ysgolion[34]. Nid yw Llywodraeth Cymru wedi ymateb i'r adolygiad eto.

3.4 Yn ei adroddiad ar gyllideb Llywodraeth Cymru 2022-23[35], fe wnaeth Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg y Senedd amlygu pryder y pwyllgor a'i rhagflaenodd pa un a oedd y setliad llywodraeth leol yn galluogi awdurdodau lleol i roi darpariaeth ddigonol ar gyfer cyllidebau ysgolion. Argymhellodd y dylai Llywodraeth Cymru egluro sut y mae Gweinidogion yn cydweithio gydag awdurdodau lleol i sicrhau bod ysgolion yn cael digon o gyllid i gyflawni ymrwymiadau polisi Llywodraeth Cymru, gan gynnwys y cwricwlwm newydd.

33 Archwilydd Cyffredinol Cymru, Darlun o Ysgolion, Hydref 2021

34 Sibieta, L., Adolygiad o Wariant Ysgolion yng Nghymru, Llywodraeth Cymru, Hydref 2020

35 Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg y Senedd, Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2022-23, Chwefror 2022

## Gallai prinder athrawon â sgiliau Cymraeg greu rhwystr i uchelgais Llywodraeth Cymru i ddiwygio'r modd yr addysgir Cymraeg

3.5 Mae ehangu'r ddarpariaeth o ran y Gymraeg mewn ysgolion a thyfu addysg Gymraeg yn allweddol i uchelgeisiau Llywodraeth Cymru i gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg[36]. Mae gan Lywodraeth Cymru uchelgais ar gyfer dull trosfwaol lle mae'r Gymraeg yn y cwestiwn; dileu unrhyw wahaniaeth rhwng siaradwyr iaith gyntaf ac ail iaith i greu un continwwm ar gyfer dysgu'r iaith o'r rhai sydd heb gael llawer o gyswllt neu nad ydynt wedi cael unrhyw gyswllt â'r iaith i'r rhai sy'n gweithio tuag at hyfedredd[37]. Roedd wedi codi'r posibilrwydd o un cymhwyster trosfwaol ond mae hynny wedi profi'n anodd am bod dysgwyr yn cael cyswllt amrywiol â'r Gymraeg. Ym mis Chwefror 2022, cyhoeddodd Cymwysterau Cymru dri chymhwyster Cymraeg newydd: cyfuno Cymraeg Iaith a Llenyddiaeth Gymraeg ar gyfer ysgolion cyfrwng Cymraeg a dwyieithog; TGAU Cymraeg newydd ar gyfer ysgolion cyfrwng Saesneg; a chymhwyster ychwanegol ar gyfer dysgwyr mewn ysgolion cyfrwng Saesneg y mae arnynt eisiau datblygu eu sgiliau Cymraeg ymhellach.

3.6 Fodd bynnag, mae uchelgeisiau Llywodraeth Cymru'n cael eu bygwth gan ddiffyg hirsefydlog o ran athrawon sy'n gallu addysgu Cymraeg ac addysgu pynciau eraill trwy gyfrwng y Gymraeg. Canfu adroddiad ym mis Gorffennaf 2020 ar y farchnad lafur athrawon brinderau mewn Cymraeg ynghyd â phynciau eraill[38]. Mae Estyn wedi canfod yn flaenorol bod ysgolion cyfrwng Cymraeg yn wynebu mwy o anawsterau recriwtio a'u bod yn cael anhawster dod o hyd i staff cyflenwi sy'n siarad Cymraeg[39].

3.7 Nid yw mentrau diweddar i ddenu pobl â sgiliau Cymraeg i'w gweld fel pe baent wedi arwain at gynnydd sylweddol. Fe gynyddodd niferoedd y bobl sy'n dechrau addysg gychwynnol i athrawon naill ai i addysgu yn Gymraeg neu sy'n rhugl yn y Gymraeg yn 2019/20 o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol ond roeddent yn dal i fod yn llai nag yn 2014/15 (Arddangosyn 11). Mae ystadegau'r gweithlu addysg hefyd yn dangos bod nifer yr athrawon cofrestredig sy'n gallu siarad Cymraeg (33.5% yn 2021) neu weithio trwy gyfrwng y Gymraeg (27% yn 2021) wedi aros yn weddol sefydlog dros y blynyddoedd diwethaf[40]. Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru gynllun deng mlynedd i fynd i'r afael â'r materion hyn ym mis Mai 2022[41].

36 Llywodraeth Cymru, Cymraeg 2050 – Miliwn o siaradwyr, Gorffennaf 2017

37 Mae Cymraeg yn elfen orfodol o'r cwricwlwm cyfredol ar gyfer cyfnodau allweddol 2, 3 a 4. Ar hyn o bryd, mae gan gymwysterau lwybrau gwahanol gan ddibynnu pa un ai iaith gyntaf ynteu ail iaith yw Cymraeg.

38 Y Sefydliad Cenedlaethol ar gyfer Ymchwil Addysgol, Adroddiad blynyddol ar y farchnad lafur athrawon yng Nghymru 2020, Gorffennaf 2020

39 Estyn, Rheoli presenoldeb gweithlu ysgolion yn effeithiol mewn ysgolion cynradd, Ionawr 2017

40 Cyngor y Gweithlu Addysg, Ystadegau blynyddol ar gyfer y gweithlu addysg yng Nghymru, Medi 2021

41 Llywodraeth Cymru, Cynllun y gweithlu Cymraeg mewn addysg, Mai 2022

**Arddangosyn 11: nifer cofnodedig y rhai â'r gallu i siarad Cymraeg a'r gallu i addysgu yn Gymraeg, myfyrwyr yn dechrau Addysg Gychwynnol i Athrawon**

| | 2014/15 | 2015/16 | 2016/17 | 2017/18 | 2018/19 | 2019/20 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Yn hyfforddi i addysgu yn Gymraeg | 255 | 245 | 235 | 210 | 175 | 235 |
| Siaradwyr Cymraeg Rhugl | 350 | 330 | 350 | 305 | 265 | 300 |

Ffynhonnell: Ystadegau Cymru, Addysg Gychwynnol i Athrawon yng Nghymru, Mai 2021

## Ceir risg na fydd y cwricwlwm newydd yn cyfrannu at nod Llywodraeth Cymru i leihau anghydraddoldebau mewn addysg

3.8 Mae Llywodraeth Cymru wedi datgan bod lleihau'r bwlch cyrhaeddiad – y gwahaniaeth mewn cyflawniadau addysgol rhwng un grŵp o ddysgwyr ac eraill – yn un o nodau'r cwricwlwm newydd[42]. Ar un mesur pwysig – y gwahaniaeth rhwng canlyniadau TGAU y rhai sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim a chanlyniadau TGAU disgyblion eraill – fe ehangodd y bwlch cyrhaeddiad rhwng 2016 a 2021 ar raddau A*-A ar gyfer disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim a disgyblion eraill. Fe gynyddodd y bwlch ar raddau A*-C hefyd rhwng 2016 a 2019 er ei fod wedi lleihau ers hynny. Gwelir bylchau cyrhaeddiad eraill rhwng bechgyn a merched, rhwng grwpiau ethnig a disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol ac eraill ar lefel TGAU.

3.9 Mae tystiolaeth a gyflwynwyd i Bwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg y Senedd ym mis Tachwedd 2019 wedi awgrymu bod newid y cwricwlwm yn annhebygol ohono'i hun o leihau'r bwlch[43]. Canfu ymchwil mewn ysgolion arloesi[44] mai ychydig o athrawon oedd yn nodi y gallai plant o gefndiroedd difreintiedig fod yn cael budd o'r cwricwlwm newydd. Gan gydnabod bod terfyn i allu unrhyw gwricwlwm i fynd i'r afael ag achosion lluosog cyrhaeddiad anghyfartal rhwng disgyblion a bod Llywodraeth Cymru'n bwriadu cyhoeddi mesurau newydd i fynd i'r afael â'r cysylltiad rhwng anfantais a chyrhaeddiad addysgol, rydym ni'n meddwl bod risg y gallai'r cwricwlwm newydd fethu â chyrraedd ei nodau o ran cydraddoldeb. Mae mwy o waith i'w wneud i ddeall sut y gall y cwricwlwm newydd gyfrannu at leihau'r bwlch.

42 Llywodraeth Cymru, Bil y Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2020 – Memorandwm Esboniadol, Gorffennaf 2020; Y Gweinidog Addysg, Dadl mewn Sesiwn Lawn – Bil y Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2020, Rhagfyr 2020

43 Newton N.,Tystiolaeth i Bwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg y Senedd, Tachwedd 2019

44 Newton, N., Power, S a Taylor, C., Successful futures for all: Explorations of curriculum reform, Prifysgol Caerdydd, Gorffennaf 2019

3.10 Ceir risg hefyd y bydd gwahaniaethau yng nghwricwla ysgolion yn arwain at anghydraddoldebau. Un o'r dadleuon dros gyflwyno cwricwlwm cenedlaethol yn y 1980au oedd er mwyn cyflwyno mwy o gysondeb yn y cwricwlwm a gynigir gan ysgolion. Fodd bynnag, dros amser fe wnaed newidiadau ac ychwanegiadau, a daeth y cwricwlwm cenedlaethol i gael ei ystyried fel gwasgod gaeth, a oedd yn cyfyngu ar annibyniaeth broffesiynol. Mae'r cydbwysedd hwn rhwng cysondeb cenedlaethol a hyblygrwydd lleol wedi bod yn ganolog i'r drafodaeth ynglŷn â'r cwricwlwm newydd.

3.11 Argymhellodd Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg blaenorol y Senedd fod angen i Lywodraeth Cymru fod yn fwy eglur ynglŷn â pha rwystrau a gwrthbwysau y bydd yn eu rhoi yn eu lle i fonitro pa un a yw dysgwyr yn cael cwricwlwm cyson, ond nid unffurf[45]. Mae cydweithio o fewn clystyrau, cymorth cymar-i-gymar, y rhwydwaith cenedlaethol (**paragraff 2.30**) yn ogystal â throsolwg gan gonsortia a phartneriaethau a'r gyfundrefn arolygu oll yn elfennau sydd â rôl i sicrhau cysondeb rhwng ysgolion, ond rydym ni'n ystyried bod hon yn risg gynhenid y bydd angen parhau i'w goruchwylio.

## Mae angen i Lywodraeth Cymru barhau i weithio gyda Cymwysterau Cymru i sicrhau bod cymwysterau newydd yn cyd-fynd â'r cwricwlwm ac yn galluogi dilyniant i'r ystod lawn o opsiynau ôl-16

3.12 Cydnabu Llywodraeth Cymru a Cymwysterau Cymru ar adeg gynnar y byddai angen i gymwysterau newid i gyd-fynd ag uchelgeisiau ar gyfer y cwricwlwm newydd. Fe wnaeth Llywodraeth Cymru ohirio'r drafodaeth hon tan ar ôl penderfynu ar brif nodweddion y cwricwlwm i osgoi'r risg y byddai cymwysterau'n llywio'r broses o ddatblygu'r cwricwlwm. Wrth gydnabod yr angen am newid, mae Llywodraeth Cymru'n rheoli'r risg y gallai cymwysterau ddod yn rhwystr i roi'r cwricwlwm ar waith yn llwyddiannus fel a welwyd yn yr Alban[46].

45 Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg y Senedd, Adroddiad Gwaith Craffu Cyfnod 1 ar Fil y Cwricwlwm ac Asesu (Cymru), Rhagfyr 2020

46 Y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd, Scotland's Curriculum for Excellence - Into the future, Mehefin 2021

3.13 Fodd bynnag, ceir tystiolaeth o waith gan Estyn bod rhai ysgolion uwchradd wedi arafu'r cynnydd o ran datblygu eu cwricwla am nad oeddent yn glir ynglŷn â chymwysterau yn y dyfodol (gweler **troednodyn 20**). Fe ymgynghorodd Cymwysterau Cymru ar ffurf cymwysterau rhwng mis Tachwedd 2019 a mis Chwefror 2020. Dywedodd wrthym fod rhanddeiliaid wedi mynegi cefnogaeth eang i'r syniad bod dysgwyr 14-16 yn dal i ddilyn cymwysterau ffurfiol, er y bu galwad am newidiadau sylweddol i gymwysterau TGAU[47]. Ym mis Mehefin 2020, cyhoeddodd Cymwysterau Cymru y byddai cymwysterau o'r enw TGAU yn parhau ond gyda chynnwys a threfniadau asesu wedi'u diwygio i ategu'r cwricwlwm newydd. Ym mis Hydref 2021 cyhoeddodd benderfyniadau lefel-uchel ynglŷn â'r ystod newydd o gymwysterau TGAU a fydd yn cael eu creu. Mae'r rhain yn cynnwys cymwysterau newydd (megis peirianneg, a ffilm a'r cyfryngau digidol), cyfuno cymwysterau presennol (mathemateg a rhifedd a Saesneg iaith a llenyddiaeth Saesneg) a chymhwyster dyfarniad dwbl gwyddoniaeth newydd i ddisodli'r holl opsiynau gwyddoniaeth cyfredol.

3.14 Mynegodd rhai randdeiliaid bryderon wrthym ynghylch cyflymder a swm y gwaith sy'n ofynnol i gyd-greu'r cymwysterau mewn pryd i'r disgyblion ddewis eu hopsiynau TGAU yn 2024/25. Mynegodd ColegauCymru bryder ynghylch sut y byddai'r cymwysterau newydd yn ategu cymwysterau Safon Uwch, yn cefnogi myfyrwyr sy'n croesi'r ffin i astudio[48] a'r rhai sy'n astudio cymwysterau galwedigaethol nad ydynt yn benodol i Gymru gan mwyaf. Mae Cymwysterau Cymru a Llywodraeth Cymru'n cydnabod bod y gwaith hwn yn fater o frys. Mae ffrydiau gwaith ar y gweill; i ddechrau roedd ysgolion yn ei chael yn anodd rhyddhau staff ond ar ôl mwy o gyfathrebu ac ymgyrch recriwtio, dywedodd Cymwysterau Cymru wrthym eu bod wedi sicrhau digon o athrawon a darlithwyr i lenwi pob un o'r 24 o weithgorau a sefydlwyd i roi cymorth i ddatblygu cymwysterau TGAU newydd a chymwysterau cysylltiedig ar y cyd. Fe ddwedon nhw wrthym y bu ymateb cadarnhaol hefyd gan ysgolion a cholegau ar gyfer ei waith ymgysylltu â dysgwyr yng ngwanwyn 2021. Bydd yn bwysig monitro cynnydd y gwaith hwn fel bod cymwysterau newydd yn cael eu cyd-ddylunio gyda rhanddeiliaid.

47 Jones C. mewn cydweithrediad gyda Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru, Addysg sy'n Addas ar gyfer y Dyfodol yng Nghymru, Hydref 2019

48 Credir bod nifer y dysgwyr 16-19 oed sy'n croesi'r ffin i astudio mewn ysgolion neu golegau yng Nghymru neu Loegr yn weddol fach ar y cyfan ond gall fod yn sylweddol i sefydliadau sy'n agos at y ffin.

3.15 Dros amser bu newidiadau o ran i ba raddau y mae asesiadau athrawon wedi bod yn rhan o gymwysterau yng Nghymru. Ym mis Rhagfyr 2021, fe gyhoeddodd Cymwysterau Cymru ymchwil i gynnwys athrawon mewn trefniadau asesu mewn 12 o awdurdodaethau eraill[49] ac i brofiadau athrawon a dysgwyr o asesu di-arholiad[50] i oleuo dyluniad cymwysterau newydd. Bydd ar athrawon a dysgwyr angen cymorth i newid i'r cymwysterau hyn gan gynnwys:

- **Sicrhau dibynadwyedd a dilysrwydd asesu a arweinir gan athrawon –** yn 2020 roedd pryder ynghylch dylanwad gwyrduedd ar asesiadau athrawon[51]. Yn 2021, fe gyflwynodd Cymwysterau Cymru a CBAC broses sicrhau ansawdd a system apeliadau i sicrhau bod dysgwyr yn cael canlyniadau a oedd yn adlewyrchiad teg o'u cyflawniadau mewn cymwysterau a oedd wedi'u bwriadu i gael eu hasesu'n bennaf trwy arholiadau allanol. Bydd angen rhaglen genedlaethol o gymorth a dysgu proffesiynol a fframweithiau i sicrhau dull cyffredin a chynnal hyder y cyhoedd yn y deilliannau.
- **Deall y goblygiadau o ran llwyth gwaith ar gyfer athrawon –** fe wnaeth darparu graddau a bennir gan y ganolfan yn ystod y pandemig arwain at waith ychwanegol i athrawon a'u dargyfeirio oddi wrth waith arall. Wrth i amgylchiadau ddod yn fwy normal, bydd angen i oblygiadau unrhyw newidiadau mewn trefniadau asesu ar gyfer llwyth gwaith gael eu hystyried, gan gynnwys tystiolaeth o awdurdodaethau eraill.
- **Deall effaith asesu ar ddysgwyr –** ar y cyfan, mae dysgwyr yn teimlo'n gadarnhaol ynglŷn â dulliau asesu di-arholiad, ond mae rhai'n cael bod swm y gwaith yn anodd i'w reoli. Ceir safbwyntiau gwrthgyferbyniol ynglŷn â hygyrchedd asesu di-arholiad i ddysgwyr, yn enwedig y rhai â lefelau gallu is.

## Mae angen mwy o ymgysylltu â rhieni, gofalwyr a dysgwyr i sicrhau bod y cwricwlwm yn cael ei roi ar waith yn llwyddiannus

3.16 Mae fframwaith y cwricwlwm newydd yn ei gwneud yn ofynnol i ysgolion ymgynghori â rhieni a gofalwyr a'u hysbysu ynghylch y cwricwla. Mae ysgolion yn datblygu ffyrdd o wneud hyn megis pwyllgorau a digwyddiadau i rieni, gan adeiladu ar astudiaethau achos ac arfer da. Mae ymgysylltiad ysgolion â rhieni a gofalwyr wedi elwa ar y cyfan o ffyrdd newydd o weithio yn ystod pandemig COVID-19.

49 Alpha Plus, Systemau asesu addysgol rhyngwladol a'r modd y maent yn cynnwys athrawon yn y cylch asesu, Cymwysterau Cymru, Awst 2021

50 Cymwysterau Cymru, Canfyddiadau a phrofiadau athrawon a dysgwyr o asesu di-arholiad (ADA) mewn cymwysterau TGAU cymeradwy yng Nghymru, Rhagfyr 2021

51 OFQUAL, Equality impact assessment: literature review, Ebrill 2020

3.17 Bydd ymgysylltu'n arbennig o bwysig mewn perthynas ag agweddau ar y cwricwlwm newydd sydd wedi profi'n ddadleuol, megis y newidiadau i grefydd, gwerthoedd a moeseg, addysg rhyw a chydberthynas a'r Gymraeg. Er enghraifft, ym mis Tachwedd 2020 erfyniodd Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg y Senedd ar Lywodraeth Cymru i gynnal ymarfer 'trechu'r mythau' i hysbysu rhieni am yr addysg rhyw a chydberthynas a fydd yn rhan o ddysgu yn y dyfodol. Derbyniodd Llywodraeth Cymru'r argymhelliad hwn, ac fe wnaeth y Senedd gymeradwyo'r Cod Addysg Rhyw a Chydberthynas ym mis Rhagfyr 2021. Mae ymgyrch cyfathrebu ar addysg rhyw a chydberthynas ar y gweill gan Lywodraeth Cymru ac mae wedi diweddaru'r wybodaeth ar ei llwyfan digidol, Hwb.

3.18 Rhaid i ysgolion ymgysylltu â rhieni ynghylch eu cwricwla a galluogi rhieni a dysgwyr i gyfranogi ym mhrosesau gwerthuso a gwella ysgolion. Nid yw'n glir a yw Llywodraeth Cymru'n bwriadu mesur lefel yr ymgysylltiad â rhieni, fel a wnaed yn yr Alban[52].

## Nid yw'n glir eto pa wybodaeth fydd ar gael i ategu dull newydd lle mae hunanwerthuso, gwella, atebolrwydd a thryloywder yn y cwestiwn

3.19 Mae llwyddiant systemau addysg yn tueddu i gael ei farnu, o leiaf yn rhannol, ar sail canlyniadau arholiadau a phrofion. Dros amser mae gweinyddiaethau dilynol Llywodraeth Cymru wedi amrywio'u dull o ymdrin â'r mesurau hyn lle mae llawer yn y fantol[53] gyda hunanwerthuso'n cael ei gynnwys yn fwyfwy fel un o nodweddion dull Llywodraeth Cymru o ran atebolrwydd a gwella ysgolion. Mae llawer o randdeiliaid yn ystyried bod hyn yn gryfder, gan ei fod yn torri'r cysylltiad rhwng asesu a mesurau atebolrwydd. Fodd bynnag, canfu adolygiad gan y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd yn 2018[54] nad oedd dealltwriaeth gyffredin am hunanwerthuso da a sut yr oedd yn edrych.

52 Llywodraeth yr Alban, Learning together: national action plan for parental involvement, engagement, family learning and learning at home 2018-21, Rhagfyr 2018

53 Yn 2012, fe gyflwynodd Llywodraeth Cymru newidiadau a oedd yn ymwneud â chasglu, cyhoeddi a rhannu gwybodaeth am ysgolion a disgyblion i sicrhau hunanwerthuso cadarn a herio effeithiol ac i helpu i wella safonau. Cyflwynwyd system fandio genedlaethol ar gyfer ysgolion (y System Genedlaethol i Gategoreiddio Ysgolion) i adnabod ysgolion yr oedd angen iddynt wella. Cyflwynwyd profion rhifedd a llythrennedd i ddisgyblion rhwng 7 ac 14 oed yn 2013.

54 Y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd, Datblygu ysgolion fel sefydliadau sy'n dysgu yng Nghymru, Hydref 2018

3.20 Bu oedi gyda gwaith ar atebolrwydd a gwella. Ym mis Chwefror 2019, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ganllawiau drafft cychwynnol ar werthuso a gwella ar gyfer y cwricwlwm newydd[55]. Roedd y rhain yn cynnig system yn seiliedig ar bedair egwyddor: teg, cydlynus, cymesur a thryloyw. Disodlwyd y rhain gan ddrafft mwy manwl ym mis Ionawr 2021[56]. Ym mis Hydref 2020, dywedodd Llywodraeth Cymru y byddai canllawiau a chymorth ar gyfer prosesau hunanwerthuso ysgolion ar gael cyn blwyddyn academaidd 2021/22[57]. Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru'r Adnodd Cenedlaethol: Hunanwerthuso a Gwella i ysgolion ym mis Hydref 2021 gyda chanllawiau ac enghreifftiau ymarferol i ategu system ysgolion hunanwella ar Hwb, ei llwyfan digidol ar gyfer dysgu ac addysgu. Dechreuodd cynlluniau peilot ym mis Tachwedd 2021 ac ar hyn o bryd mae Llywodraeth Cymru'n rhagweld y bydd y gwaith yn cael ei gwblhau erbyn diwedd y flwyddyn academaidd gyda'r mwyafrif o adnoddau'n cael eu cyhoeddi erbyn mis Ebrill 2022.

3.21 Mae rheoliadau Llywodraeth Cymru'n rhagnodi'r wybodaeth y mae'n rhaid i ysgolion ei chynnwys yn eu hadroddiad blynyddol i'r llywodraethwyr ac ym mhrosbectws yr ysgol[58]. Ers 2018, nid yw ysgolion wedi gorfod cynnwys gwybodaeth gymharol o asesiadau darllen a rhifedd cenedlaethol. Yn 2020, dilëwyd y gofyniad i adrodd ar ganlyniadau arholiadau ac absenoldeb awdurdodedig ac anawdurdodedig oherwydd effaith anghyfartal y pandemig. Fe barhaodd hyn yn 2021/22[59]. Hyd yma, nid yw'n glir pa wybodaeth y byddir yn adrodd arni'n gyhoeddus nac wrth y rhai sy'n gyfrifol am graffu ac atebolrwydd[60]. Mae cyfle i gynnwys data sy'n berthnasol i bob maes o fewn y cwricwlwm – er enghraifft iechyd a lles – ac nid dim ond canlyniadau arholiadau neu brofion.

55 Llywodraeth Cymru, Trefniadau gwerthuso a gwella (atebolrwydd) drafft i Gymru, Chwefror 2019

56 Llywodraeth Cymru, Canllawiau gwella ysgolion: fframwaith ar gyfer gwerthuso, gwella ac atebolrwydd: Canllawiau drafft, Ionawr 2021

57 Estyn, Llywodraeth Cymru a'r Consortia Addysg Rhanbarthol, Diweddariad a chanllawiau ar yr Adnodd Cenedlaethol: Gwerthuso a Gwella f1.3, Hydref 2020

58 Rheoliadau Adroddiadau Blynyddol Llywodraethwyr Ysgolion (Cymru) 2011

59 Rheoliadau llacio trefniadau adrodd ysgolion (Cymru) (Coronafeirws) 2022, Chwefror 2022

60 Cyrff llywodraethu yw'r cyrff atebol ar gyfer eu hysgolion. Lle mae ysgolion yn achosi pryder, gall awdurdodau lleol ymyrryd, gan gael eu cynghori a'u cefnogi gan gonsortia rhanbarthol. Mae atebolrwydd democrataidd mewn awdurdodau lleol (Cynghorau a Phwyllgorau Craffu) ac mewn consortia rhanbarthol (Cydbwyllgorau a Bwrdd Cwmni) yn cefnogi ysgolion trwy fonitro, herio a chefnogi gwelliant.

3.22 Mae Llywodraeth Cymru wedi comisiynu ymchwil i'r wybodaeth y mae ei hangen ar gyfer hunanwerthuso, gwella, atebolrwydd a thryloywder ar draws pob haen o ysgolion y bydd yr adroddiad arni'n cael ei gyhoeddi ym mis Medi 2022, flwyddyn yn ddiweddarach nag a awgrymwyd yn ei chynllun gweithredu wedi'i ddiweddaru ym mis Hydref 2020. Bydd yn bwysig cynnwys data cadarn sy'n galluogi rhieni a llywodraethwyr i fod â darlun llawn o berfformiad ysgolion ac sy'n ei gwneud yn bosibl i lywodraethwyr ac awdurdodau lleol wneud gwaith craffu. Fel arall, ceir risg y bydd ymarferion allanol fel profion PISA a chanlyniadau arholiadau'n dal i fod yn brofion lle mae llawer yn y fantol i'r system addysg a Llywodraeth Cymru.

3.23 Mae Deddf y Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021 yn ei gwneud yn ofynnol i weinidogion barhau i adolygu'r 27 o ddatganiadau yng 'Nghod yr Hyn sy'n Bwysig' a'r Cod Cynnydd. Mae'n ofynnol hefyd i benaethiaid a llywodraethwyr barhau i adolygu cwricwla ysgolion. Fodd bynnag, nid yw'r Ddeddf yn nodi sut na pha mor aml y dylid gwneud hyn. Ceir nifer o lwybrau ar gyfer adolygu gan gynnwys y rhwydweithiau cenedlaethol. Mae Gweinidogion Llywodraeth Cymru wedi cynnig adrodd yn genedlaethol wrth y Senedd ar gynnydd, gan ddarparu cyfle ar gyfer craffu.

3.24 Mae ymchwil wedi dangos bod gwledydd â systemau addysg uchel eu parch yn tueddu i ddiwygio'r cwricwlwm ar sail gylchol wedi'i chynllunio (gweler **troednodyn 7**). Yn yr adolygiad o'r Cwricwlwm ar gyfer Rhagoriaeth a gomisiynwyd gan Lywodraeth yr Alban yn 2020, fe wnaeth y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd sylw bod Llywodraeth yr Alban heb gynllunio ar gyfer adolygiad ffurfiol o fframwaith y Cwricwlwm ar gyfer Rhagoriaeth, 'although such a review cycle is common practice in curriculum policy in other education systems' (gweler **troednodyn 46**). Ers datganoli ym 1999, mae Llywodraeth Cymru wedi comisiynu sawl adolygiad o'r cwricwlwm (yn 2008, 2012 a 2014) ond ni fu unrhyw fecanwaith ar gyfer adolygiad cylchol.

# Atodiadau

1 Ymagwedd a dulliau archwilio

2 Llinell amser o ddigwyddiadau allweddol sy'n ymwneud â diwygio'r cwricwlwm, 2008-2027

# 1 Ymagwedd a dulliau archwilio

## Ymagwedd archwilio

Fe ganolbwyntiom ni ar y modd y mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn rheoli'r rhaglen i ddiwygio'r cwricwlwm a'i roi ar waith. Ein nod oedd cefnogi'r broses o roi'r cwricwlwm ar waith a chefnogi gwaith craffu. Felly, fe ddarparom ni adborth manwl ar gyfer ymgynghoriad y Senedd ynghylch Bil y Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) ym mis Medi 2020. Rydym wedi cwrdd yn rheolaidd â swyddogion Llywodraeth Cymru yn ystod yr archwiliad hwn.

Ar ddechrau ein gwaith yn gynnar yn 2021, roedd ein ffocws ar ystyried pa un a oedd y broses o roi'r cwricwlwm ar waith ar y trywydd iawn, yn enwedig yng ngoleuni sgyrsiau cynnar gyda chydweithwyr yn Estyn ac mewn sefydliadau eraill am effaith pandemig COVID-19 ar allu ysgolion uwchradd i ddatblygu eu cwricwla a dysgu proffesiynol cyn y garreg filltir arfaethedig i roi'r cwricwlwm newydd ar waith ym mis Medi 2022.

Ein nod oedd darparu sicrwydd bod y broses o roi'r cwricwlwm ar waith ar y trywydd iawn yng nghyd-destun cynlluniau diwygiedig a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2021. Fe wnaeth ein gwaith archwilio ganolbwyntio ar ystyried:

- a oedd gan Lywodraeth Cymru ddiben eglur ar gyfer diwygio'r cwricwlwm;
- a oedd y broses o ddiwygio'r cwricwlwm yn mynd rhagddi fel a fwriadwyd;
- a oedd risgiau/rhwystrau arwyddocaol i roi'r cwricwlwm newydd ar waith yn llwyddiannus; ac
- a oedd Llywodraeth Cymru'n rheoli'r prif risgiau mewn modd effeithiol.

Dros y blynyddoedd diwethaf, bu nifer o adolygiadau gan y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd ac eraill yn ogystal ag ymchwil a oedd yn gysylltiedig â diwygio'r cwricwlwm. Mae Estyn wedi cynnal nifer o adolygiadau thematig yn ogystal â gwneud gwaith ymgysylltu yn 2020 a 2021. Rydym wedi cyfeirio at ei gwaith yn hytrach na'i ddyblygu. Gofynnodd Llywodraeth Cymru i Estyn adolygu cymorth consortia ac awdurdodau lleol i ysgolion gyda'r cwricwlwm newydd yn 2021. Buom yn cyfathrebu'n rheolaidd gydag Estyn am ei gwaith.

## Dulliau archwilio

- **Adolygu dogfennau:** fe wnaethom adolygu peth wmbredd o ddogfennaeth ac ymchwil mewn perthynas â diwygio cwricwla, mewn ymgais bwriadol i beidio â dyblygu tystiolaeth a gasglwyd gan eraill. Fe gyffyrddon ni â rhai o'r heriau sy'n gysylltiedig â diwygio cwricwla yn ein hadroddiad Darlun o Ysgolion ym mis Hydref 2021.
- **Cyfweliadau lled strwythuredig:** fe wnaethom gyfweld â swyddogion Llywodraeth Cymru a staff o sefydliadau eraill sy'n rhanddeiliaid megis Estyn, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, Cymwysterau Cymru a Swyddfa'r Comisiynydd Plant.
- **Dadansoddi data:** fe wnaethom adolygu data ariannol ar faint o arian oedd wedi cael ei wario ar ddiwygio'r cwricwlwm.
- **Galwad am dystiolaeth:** fe wnaethom wahodd partïon â buddiant i ddarparu eu barn ynglŷn â chynnydd o ran diwygio'r cwricwlwm. Fe wnaethom dargedu sefydliadau ac unigolion a oedd wedi ymateb yn flaenorol i ymgynghoriad y Senedd ar Fil y Cwricwlwm ac Addysg (Cymru) a ddaeth i ben ym mis Medi 2020.

  Cawsom adborth gan 9 sefydliad addysg gan gynnwys ColegauCymru a ofynnodd am gael cwrdd â ni hefyd ynghyd â chynrychiolwyr o'r sector addysg bellach.

  Cawsom hefyd ymatebion gan 5 pennaeth, 12 o athrawon, 7 rhiant a 4 aelod o'r cyhoedd. Er na ellid ystyried bod y rhain yn gynrychiadol, fe wnaethom eu hystyried ochr yn ochr â thystiolaeth o arolygon eraill (gweler **troednodiadau 27 a 28**) ac Arolwg y Gweithlu Addysg 2021.
- **Gweithdy:** fe gynhaliom ni weithdy gyda swyddogion Llywodraeth Cymru i archwilio cefndir a statws y rhaglen i ddiwygio'r cwricwlwm.

# 2 Llinell amser o ddigwyddiadau allweddol sy'n ymwneud â diwygio'r cwricwlwm, 2008-2027

### Medi 2008

Llywodraeth Cymru'n cyflwyno'r Cyfnod Sylfaen i ddysgwyr 3-7 oed, sy'n gwricwlwm yn benodol ar gyfer y blynyddoedd cynnar â phwyslais ar ddysgu drwy chwarae. Y Cwricwlwm i Gymru'n disodli'r cwricwlwm cenedlaethol a gyflwynwyd ym 1988 ar gyfer cyfnodau allweddol 2-4 (7-16 oed).

### Rhagfyr 2010

Canlyniadau PISA yn ysgogi trafodaeth genedlaethol am safonau. Mae'r Gweinidog Plant, Pobl Ifanc a Dysgu Gydol Oes yn disgrifio'r canlyniadau fel 'ysgytwad i system hunanfodlon'.

### Chwefror 2011

Llywodraeth Cymru'n cyhoeddi newidiadau sylweddol i wella addysg gan gynnwys ffocws o'r newydd ar lythrennedd a rhifedd, atebolrwydd a dysgu ac addysgu cryfach mewn ysgolion.

### Chwefror 2012

Llywodraeth Cymru'n rhoi diweddariad i Senedd Cymru ar ei chynnydd gyda'r camau gweithredu a gyhoeddwyd ym mis Chwefror 2011.

### Hydref 2012

Llywodraeth Cymru'n cyhoeddi 'Gwella Ysgolion – cynllun 20 pwynt'. Mae'r mesurau'n cynnwys meithrin capasiti i gefnogi ysgolion, cryfhau arweinyddiaeth mewn ysgolion a chymorth ar gyfer dysgu ac addysgu effeithiol.

Llywodraeth Cymru'n cyhoeddi adolygiad o drefniadau asesu a'r Cwricwlwm i Gymru a thasglu i fwrw golwg ar hanes Cymru, stori Cymru a'r Cwricwlwm Cymreig.

### Mawrth 2014

Llywodraeth Cymru'n cyhoeddi y bydd yr Athro Graham Donaldson yn arwain adolygiad o'r cwricwlwm i ddysgwyr 3-16 yng Nghymru.

### Hydref 2014

Llywodraeth Cymru'n cyhoeddi 'Cymwys am oes: Cynllun Gwella Addysg ar gyfer dysgwyr 3 i 19 oed yng Nghymru – cynllun gweithredu pum mlynedd ar gyfer diwygio addysg'.

### Chwefror 2015

Llywodraeth Cymru'n cyhoeddi adroddiad yr Athro Donaldson 'Dyfodol Llwyddiannus' sy'n argymell Cwricwlwm newydd i Gymru.

**Hydref 2015**

Llywodraeth Cymru'n cyhoeddi 'Cwricwlwm i Gymru: cwricwlwm am oes', ei hymateb i Dyfodol Llwyddiannus.

**Medi 2017**

Llywodraeth Cymru'n cyhoeddi 'Addysg yng Nghymru: Cenhadaeth ein cenedl, Cynllun Gweithredu' yn nodi ei rhaglen i ddiwygio addysg. Mae'r broses o roi'r cwricwlwm newydd ar waith yn cael ei gohirio tan fis Medi 2022 o fis Medi 2021.

**Rhagfyr 2017**

Llywodraeth Cymru'n cyhoeddi datganiad 'Yr Hyn sy'n Bwysig' i ategu datblygiad y chwe Maes Dysgu a Phrofiad.

**Mehefin 2018**

Estyn yn cyhoeddi 'Arolygiaeth sy'n Dysgu: Adolygiad annibynnol o Estyn'. Mae hyn yn dilyn rhoi gwahoddiad i'r Athro Graham Donaldson adolygu trefniadau arolygu i ategu'r cwricwlwm newydd.

**Ionawr 2019**

Llywodraeth Cymru'n cyhoeddi canllawiau drafft ar gyfer y Cwricwlwm newydd i Gymru ar gyfer ymgynghori.

**Ionawr 2020**

Llywodraeth Cymru'n cyhoeddi canllawiau ar fframwaith y Cwricwlwm i Gymru a rhagor o fanylion am y chwe Maes Dysgu a Phrofiad.

**Mehefin 2020**

Cymwysterau Cymru'n cyhoeddi ei benderfyniadau cychwynnol ynghylch cymwysterau i ddysgwyr 16 oed, gan gynnwys cadw arholiadau.

**Gorffennaf 2020**

Llywodraeth Cymru'n cyflwyno Bil y Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) i'r Senedd (daeth yn ddeddf ym mis Ebrill 2021).

**Hydref 2020**

Llywodraeth Cymru'n cyhoeddi 'Addysg yng Nghymru: Cenhadaeth ein cenedl, diweddariad' gan gynnwys camau gweithredu ar gyfer y cyfnod hyd at fis Medi 2021.

**Mai 2021**

Yn dilyn Deddf y Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021, Llywodraeth Cymru'n cyhoeddi canllawiau drafft gan gynnwys y Cod Cynnydd, datganiadau 'Yr Hyn sy'n Bwysig', a Chodau ar gyfer Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg ac Addysg Rhyw a Chydberthynas ochr yn ochr â chanllawiau ar gyfer addysg heblaw mewn ysgolion, Addysg Rhyw a Chydberthynas a lleoliadau'r blynyddoedd cynnar a lleoliadau nas cynhelir.

### Gorffennaf 2021

Llywodraeth Cymru'n cyhoeddi ei phenderfyniad y bydd y cwricwlwm newydd yn dechrau mewn ysgolion cynradd o fis Medi 2022. Mae'n cynnig yr opsiwn i ohirio dechrau'r cwricwlwm ar gyfer blwyddyn 7 ac ar gyfer ysgolion arbennig ac unedau cyfeirio disgyblion tan fis Medi 2023. Rhaid i gyrff llywodraethu roi gwybod i Lywodraeth Cymru beth yw eu dewis erbyn 8 Ebrill 2022.

### Hydref 2021

Cymwysterau Cymru'n cyhoeddi penderfyniadau lefel-uchel ynghylch cymwysterau TGAU ar gyfer addysgu gyntaf ym mis Medi 2025. Penderfyniadau ynghylch cymwysterau Cymraeg yn cael eu gohirio tan fis Chwefror 2022. Ffrydiau gwaith i ddatblygu'r manylebau manwl ar gyfer TGAU a chymwysterau eraill yn cael eu cyhoeddi.

### Chwefror 2022

Llywodraeth Cymru'n cyhoeddi:

- Cymorth cenedlaethol i ddatblygu cynnydd ac asesu yn y cwricwlwm newydd.
- Hawl genedlaethol i becyn o ddysgu proffesiynol a chymorth ar gael i athrawon erbyn mis Medi 2022.
- Cwmni newydd a berchnogir gan Lywodraeth Cymru i ddatblygu adnoddau dwyieithog ar gyfer y cwricwlwm newydd. Yn y tymor byr, yn comisiynu ac yn datblygu adnoddau a deunyddiau.

### Medi 2022

Addysgu'r cwricwlwm newydd am y tro cyntaf ar gyfer dysgwyr o'r blynyddoedd cynnar i flwyddyn 6. Dewisol i flwyddyn 7 mewn ysgolion a gynhelir, ysgolion arbennig ac unedau cyfeirio disgyblion.

### Medi 2023

Y cwricwlwm newydd yn orfodol i flwyddyn 7 ac 8 ac ym mhob lleoliad.

### Medi 2024

Bydd ar ysgolion angen canllawiau ynghylch cymwysterau i ddatblygu eu cwricwlwm a chaniatáu i ddisgyblion ddewis opsiynau.

### Medi 2025

Addysgu'r cymwysterau newydd am y tro cyntaf

### 2026/27

Cymwysterau cyntaf dan y cwricwlwm newydd.

Ffynhonnell: Archwilio Cymru

Archwilio Cymru

24 Heol y Gadeirlan

Caerdydd

CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn testun: 029 2032 0660

Rydym yn croesawu galwadau ffôn
yn Gymraeg a Saesneg

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru